CFfG
BCW
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# AROLWG O'R ETHOLAETHAU SENEDDOL AC ARDALOEDD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

**2003**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg

**CYNNWYS**


| | | Para. | Tud. |
|---|---|---|---|
| PENNOD 1 | **CYFLWYNIAD** | | |
| | Diben y llyfryn | 1 | 1 |
| | Rheolau a gweithdrefnau statudol | 2 | 1 |
| | Problemau | 4 | 1 |
| PENNOD 2 | **Y COMISIYNAU FFINIAU** | | |
| | Comisiynau Ffiniau Seneddol | 1 | 2 |
| | Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru | 4 | 2 |
| | Cyfeiriadau a rhifau ffôn | 6 | 2 |
| PENNOD 3 | **HANES YR AROLYGON O'R ETHOLAETHAU SENEDDOL** | | |
| | Y dyddiau cynnar | 1 | 3 |
| | Comisiynau Ffiniau Parhaol | 2 | 3 |
| | Hanes byr o'r ddeddfwriaeth a'r adroddiadau cyhoeddedig | 4 | 3 |
| | Adroddiadau interim | 18 | 6 |
| | Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref | 20 | 6 |
| | Cyfansoddiad presennol Tŷ'r Cyffredin | 29 | 7 |
| | Etholaethau Senedd Ewrop | 34 | 8 |
| | Comisiwn Etholiadol | 35 | 9 |
| | Trosglwyddo'r Cyfrifoldeb dros y Gyfraith Etholiadol | 37 | 9 |
| PENNOD 4 | **MEINI PRAWF AR GYFER CYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL** | | |
| | Cymhwyso darpariaethau statudol | 1 | 10 |
| | Arolygon cyffredinol | 2 | 10 |
| | Arolygon interim | 3 | 10 |
| | Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi | 4 | 10 |
| | Enwau | 8 | 11 |
| | Dynodiad | 10 | 12 |
| | Ymarfer | 11 | 12 |
| | Ffactorau perthnasol eraill | 19 | 13 |
| | Mapiau | 21 | 14 |

| | | Para. | Tud. |
|---|---|---|---|
| | Yr iaith Gymraeg | 22 | 14 |


**CYNNWYS** **Para.** **Tud.**


| | | | |
|---|---|---|---|
| PENNOD 5 | **GWEITHDREFNAU AR GYFER CYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL** | | |
| | Dechrau'r arolwg | 1 | 16 |
| | Argymhellion dros dro | 3 | 16 |
| | Cyhoeddi | 10 | 17 |
| | Sylwadau | 14 | 18 |
| | Ymchwiliad lleol | 16 | 18 |
| | Argymhellion diwygiedig ac argymhellion wedi'u haddasu | 31 | 21 |
| | Argymhellion terfynol a'r adroddiad | 35 | 21 |
| | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor | 38 | 22 |
| PENNOD 6 | **MATERION WRTH GYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL** | | |
| | Cyfranogiad | 1 | 23 |
| | Cysondeb | 8 | 24 |
| PENNOD 7 | **AROLWG O ARDALOEDD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL** | | |
| | Deddf Llywodraeth Cymru 1998 | 1 | 26 |
| | Y Rheolau | 4 | 26 |
| | Gweithdrefnau | 6 | 27 |
| | Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor | 11 | 28 |
| PENNOD 8 | **CASGLIAD** | | |
| | Diwygio'r llyfryn | 1 | 29 |
| | Ymholiadau | 2 | 29 |
| ATODIAD A | Cyfansoddiad y Comisiwn | | 30 |
| ATODIAD B | Cyfeiriadau a rhifau ffôn y | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Comisiynau eraill | 31 |
| ATODIAD C | Rhestr o adroddiadau cyhoeddedig a phapurau eraill | 32 |
| ATODIAD D | Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi | 35 |
| ATODIAD E | Rheolau sy’n ymwneud ag Etholaethau’r Cynulliad a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad | 38 |
| ATODIAD F | Geirfa a thalfyriadau | 40 |
| ATODIAD G | Map yn dangos yr Etholaethau Seneddol presennol | 42 |
| MYNEGAI | | |


Cyhoeddwyd y rhifyn 1af Mai 2003

(h) Hawlfraint y Goron

PENNOD 1

# CYFLWYNIAD

**Diben y llyfryn**

1. Mae'r llyfryn hwn yn fersiwn wedi'i ddiweddaru a'i ymestyn o'r llyfryn a gyhoeddwyd yn gyntaf ym 1993 ar ddechrau'r pedwerydd arolwg cyffredinol ar gyfer y pumed arolwg cyffredinol hwn. Paratowyd y llyfryn ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan eu Hysgrifenyddiaeth ac fe'i hysgrifennwyd mewn ymdrech i helpu sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o waith y Comisiwn ac yn ei ddeall yn well, a fydd yn ei dro yn eu cynorthwyo yn eu gwaith o arolygu ac ailddosbarthu'r etholaethau seneddol yng Nghymru. Gobeithir y bydd y llyfryn hwn o gymorth mewn dwy brif ffordd.

**Rheolau a gweithdrefnau statudol**

2. Y ffordd gyntaf yw drwy amlinellu'r rheolau sy'n arwain y Comisiwn wrth iddynt wneud eu cynigion ar gyfer etholaethau newydd (pennod pedwar) a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu dilyn er mwyn caniatáu i ddadl gyhoeddus gael ei chynnal ar y cynigion hynny (pennod pump). Fodd bynnag, ni fwriedir i'r llyfryn hwn fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith am y broses o arolygu ac ailddosbarthu etholaethau seneddol. Ar gyfer datganiad pendant o'r gyfraith, cyfeirir y darllenydd at ddarpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992), ynghyd â phenderfyniad y Llys Apêl yn R.v. Boundary Commission for England Ex parte Foot [1983] QB 600.

3. Mae'r llyfryn hwn yn ymwneud yn bennaf â'r cynllun statudol presennol ar gyfer cynnal arolwg o ffiniau etholaethau seneddol. Cynhaliwyd arolwg o'r cynllun hwnnw gan y Senedd (Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cartref, Ail Adroddiad, Sesiwn 1986-87, HC 97-1). Ymhlith y pynciau eraill, ystyriodd y Pwyllgor dangynrychiolaeth Lloegr o'i gymharu â Chymru a'r Alban (nid argymhellwyd unrhyw newid) a maint cynyddol Tŷ'r Cyffredin (argymhellwyd sefydlogi ar tua 650 o seddi). Ymatebodd y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor yn Cm.308. Nid argymhellwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynllun statudol presennol. Er mwyn cael adroddiad manylach, gweler pennod tri.

**Problemau**

4. Yr ail ffordd yw drwy nodi rhai o'r prif broblemau y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn ystod eu harolygon, yn enwedig yr anhawster sy'n codi pan na fydd y cyhoedd yn cymryd rhan lawn yn y ddadl ar gynigion y Comisiwn; a thrwy egluro sut y gallai'r cyhoedd gymryd rhan lawnach yn y ddadl (pennod chwech). Mae'r Comisiwn am sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael pob cyfle i fynegi eu barn.

PENNOD 2

# Y COMISIYNAU FFINIAU

**Comisiynau Ffiniau Seneddol**

1. Mae pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig: un ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r llyfryn hwn yn ymwneud â'r Comisiwn a'r etholaethau yng Nghymru.

2. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn gorff parhaol (gweler Atodiad A) a sefydlwyd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sy'n ei gwneud yn ofynnol, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992, i bob Comisiwn gynnal arolwg parhaus o'r etholaethau seneddol a chynnal arolwg cyffredinol cyfnodol (bob 8 i 12 mlynedd) o'r holl etholaethau ar yr un adeg.

3. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol, anwleidyddol a chwbl ddiduedd. Maent yn pwysleisio'n gryf nad yw canlyniadau etholiadau blaenorol yn rhan o'u hystyriaethau wrth iddynt benderfynu ar eu hargymhellion, ac na ddylent fod yn rhan o'u hystyriaethau chwaith. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried yr effaith a gaiff eu hargymhellion ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol chwaith.

**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**

4. Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru er mwyn cynnal arolwg o strwythur llywodraeth leol yng Nghymru. Rhwng 1995 a 2001, cynhaliodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd yng Nghymru.

5. Mae'n bwysig cydnabod nad cyfrifoldeb y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw rhannu ardaloedd llywodraeth leol at ddibenion etholiadau llywodraeth leol.

**Cyfeiriadau a rhifau ffôn**

6. Dangosir cyfeiriad a rhif ffôn y Comisiwn ym Mhennod 8. Dangosir cyfeiriadau a rhifau ffôn y Comisiynau Ffiniau Seneddol eraill yn y Deyrnas Unedig, ynghyd â rhai'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, y Comisiwn Llywodraeth Leol i Loegr a'r Comisiynau Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban a Gogledd Iwerddon yn Atodiad B.

PENNOD 3

# HANES YR AROLYGON O'R ETHOLAETHAU SENEDDOL

**Y dyddiau cynnar**

1. Bu ailddosbarthu seddi yn ddigwyddiad prin yn hanes seneddol Prydain. Yn y dyddiau cynnar, cysylltwyd hyn â Deddfau a oedd yn diwygio'r etholfraint. Felly, roedd ailddosbarthu yn digwydd ar sail ad hoc o ganlyniad i ddeddfwriaeth ym 1832, 1868, 1885 a 1918. Er enghraifft, mae Deddf Diwygio 1832 yn enwog am ddymchwel "bwrdeistrefi pwdr", sef etholaethau heb lawer o etholwyr, a "bwrdeistrefi poced", sef etholaethau a reolwyd gan un person neu deulu a oedd yn berchen ar y tir. Derbyniwyd nod o fras gydraddoldeb yn ystod y broses ailddosbarthu ym 1918, ond ni fu rhagor o ailddosbarthu rhwng y rhyfeloedd.

**Comisiynau Ffiniau Parhaol**

2. Ym 1942, argymhellodd Pwyllgor Adrannol o dan Gofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr, Syr Sylvanus Vivian, y dylid sefydlu comisiynau ffiniau parhaol er mwyn cynnal arolwg cyffredinol o etholaethau unwaith yn ystod bywyd pob Senedd tymor llawn.

3. Ymgorfforwyd argymhelliad Pwyllgor Vivian yn Neddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1944, a sefydlodd y pedwar Comisiwn Annibynnol – i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – gyda phum aelod ym mhob un o dan gadeiryddiaeth Llefarydd Tŷ'r Cyffredin. Y pedwar Comisiynydd arall yng Nghymru oedd y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans a dau aelod wedi'u henwebu a ddewiswyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Iechyd.

**Hanes byr o'r ddeddfwriaeth a'r adroddiadau cyhoeddedig**

4. Roedd Deddf 1944, a sefydlodd y Comisiynau Ffiniau parhaol a'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi, yn mynnu rhannu'r etholaethau hynny â mwy na 100,000 o etholwyr ar unwaith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw seddi yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i 100,000.

5. Wrth basio Deddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1947, roedd yn ofynnol i'r Comisiynau argymell etholaethau gydag etholwyr a oedd cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol, gan ystyried y rheolau eraill, ac nid dim ond o fewn 25% o'r cwota etholiadol fel y bu'r achos yn flaenorol. Cyflwynodd y Comisiynau eu hadroddiadau cyntaf ym 1947, gan greu 36 o seddi yng Nghymru, Daeth y seddi hyn i rym yn etholiad cyffredinol 1950.

6. Cyfunwyd Deddfau 1944 a 1947 gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1949. Roedd Deddf 1949 yn mynnu bod y Comisiynau yn cynnal arolygon cyffredinol ar gyfnodau heb fod yn llai na thair blynedd na'n fwy na saith mlynedd, ac roedd hefyd yn ofynnol i bob etholaeth ddychwelyd un aelod seneddol. Cyflwynodd y Comisiynau eu hadroddiad cyntaf o

dan y ddeddfwriaeth newydd ym 1954 gyda'r Comisiwn yng Nghymru yn argymell newidiadau bach i chwech o'r 36 o seddi yng Nghymru. Daeth yr etholaethau newydd i rym yn etholiad cyffredinol 1955.

7. Argymhellion 1954, yn seiliedig ar etholaethau 1953, oedd sail cyfansoddiad Tŷ'r Cyffredin hyd nes yr etholiad ym mis Chwefror 1974.

8. Yn dilyn y feirniadaeth ar yr arolwg cyntaf, diwygiwyd y gyfraith gan Ddeddf Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1958. Prif nodweddion hyn oedd:

   (a) dileu'r Cofrestrydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans o'r Comisiynau a'u penodi fel "aseswyr" (dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref, "er y dylai'r Comisiynau barhau i elwa ar wybodaeth arbenigol y swyddogion hyn, byddai'n well pe na fyddai'r olaf o'r ddau yn gyfrifol am lunio argymhellion y Comisiynau");

   (b) y gofyniad y dylai is-gadeirydd pob Comisiwn fod yn Farnwr Uchel Lys;

   (c) ymestyn y cyfnod rhwng yr arolygon cyffredinol i "heb fod yn llai na deng mlynedd nac yn fwy na phymtheng mlynedd"; a

   (d) gofyniad ar y Comisiynau i gynnal ymchwiliad lleol pa bryd bynnag y gwrthwynebwyd eu cynigion cychwynnol gan awdurdod lleol â diddordeb neu grŵp o 100 neu fwy o etholwyr.

9. Dechreuwyd yr ail gyfres o arolygon cyffredinol o'r Comisiynau ym 1965 a chyflwynwyd eu hadroddiadau ym mis Ebrill 1969, saith mis cyn diwedd y cyfnod statudol. Roedd y Llywodraeth o'r farn y dylid gohirio newid yr etholaethau seneddol tra'n disgwyl i gynigion ar gyfer ad-drefnu'r llywodraeth leol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig gael eu hystyried, ac o ganlyniad, cyflwynwyd Mesur i gyfyngu ar ad-drefnu Llundain Fwyaf ac ambell i etholaeth fawr. Ni phasiwyd y Mesur hwn, ac felly cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Gorchmynion drafft angenrheidiol a oedd yn ofynnol er mwyn gweithredu argymhellion y Comisiynau a gwahoddodd y Tŷ i'w gwrthod, a digwyddodd hynny.

10. Ym mis Tachwedd 1970, ar ôl etholiad cyffredinol, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cartref y Gorchmynion drafft eto, gan egluro y byddai'r cynigion i ad-drefnu llywodraeth leol yn cymryd amser hir i'w gweithio allan. Cymeradwywyd y Gorchmynion hyn gan y Senedd. Felly daeth yr etholaethau a argymhellwyd gan y Comisiynau ym 1969 i rym yn yr etholiad cyffredinol ym mis Chwefror 1974, yn union cyn ad-drefnu llywodraeth leol (y tu allan i Lundain Fwyaf) ar 1af Ebrill 1974.

11. Cynhaliwyd y drydedd gyfres o arolygon o'r Comisiynau rhwng 1976 a 1983 (rhwng 1981 a 1983 yng Nghymru). Roedd yn rhaid i'r Comisiynau ystyried strwythur newydd ffiniau llywodraeth leol a deilliodd o ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974, a bu llawer o newidiadau yn yr etholaethau a argymhellwyd. Crëwyd dwy sedd ychwanegol yng Nghymru yn ystod y trydydd arolwg, gan ddod â'r cyfanswm i 38. Daeth yr etholaethau newydd i rym yn etholiad cyffredinol 1983.

12. Ar 7 Tachwedd 1986, cyfunwyd Deddfau Tŷ'r Cyffredin (Ailddosbarthu Seddi) 1949, 1958 a 1979 gan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. Cynhwysir y rheolau sydd i'w dilyn gan y Comisiynau yn Atodlen 2 i Ddeddf 1986 a chânt eu hargraffu fel Atodiad D i'r llyfryn hwn.

13. Diwygiwyd Deddf 1986 gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992, a ddaeth yn rhan o'r gyfraith ar 12 Tachwedd 1992. Yn arbennig, cafodd y dyddiad y dylasid cyflwyno'r adroddiad ar yr arolygon cyffredinol i'r Ysgrifennydd Cartref ei ddwyn ymlaen o 31 Ionawr 1998 i 31 Rhagfyr 1994. Fodd bynnag, rhagamododd y Ddeddf na fyddai'r adroddiad yn cael ei annilysu pe cawsai ei gyflwyno ar ôl terfyn amser 31 Rhagfyr 1994, neu derfynau amser yn y dyfodol. Yn ogystal, gostyngwyd y cyfnod rhwng adroddiadau ar yr arolygon cyffredinol yn y dyfodol o bob 10 i 15 mlynedd i bob 8 i 12 mlynedd. Hefyd, rhagamododd Deddf 1992 am y tro cyntaf y byddai aelodau o'r Comisiwn, ac eithrio'r Is-gadeirydd, yn cael eu talu. Fodd bynnag, parhaodd y rheolau yn atodlen 2 i Ddeddf 1986 yn ddigyfnewid.

14. Gohiriwyd dechrau'r pedwerydd arolwg cyffredinol o'r Comisiwn yng Nghymru o ganlyniad i ansicrwydd o ran pryd y byddai'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), a oedd yn cynnig awdurdodau unedol newydd yng Nghymru, yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Penderfynodd y Comisiwn y dylent, pe byddai'n bosibl o gwbl, adrodd i'r Ysgrifennydd Cartref yn eu harolwg gan ddefnyddio ffiniau'r awdurdodau unedol newydd. Fodd bynnag, unwaith y daeth yn amlwg na fyddai'r Mesur yn derbyn Cydsyniad Brenhinol mewn amser i'r Comisiwn allu cyflwyno adroddiad erbyn y terfyn amser (31 Rhagfyr 1994) gan ddefnyddio ffiniau'r awdurdodau unedol newydd, nid oedd ganddynt lawer o ddewis ond cynnal eu harolwg yn seiliedig ar ffiniau presennol y rhanbarthau a'r cymunedau. Dechreuwyd yr arolwg ym mis Tachwedd 1993 ac adroddodd y Comisiwn i'r Ysgrifennydd Cartref gyda'u hargymhellion terfynol ar gyfer 40 o seddi ar 16 Rhagfyr 1994. Cymeradwyodd y Senedd yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad a gwnaed Gorchymyn Etholaethau Seneddol (Cymru) 1995 (OS 1995 Rhif 1036) ar 11 Ebrill 1995. Daeth yr etholaethau newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol ar 1 Mai 1997.

15. At ddibenion y pumed arolwg cyffredinol, bydd Deddf 1992 yn mynnu bod y Comisiwn yn ystyried y ffiniau sir hynny a gedwir a fydd mewn grym ar ba bynnag yw'r cynharaf o'r ddau ddyddiad: naill ai dyddiad eu hadroddiad nesaf (y pumed adroddiad) neu ddengmlwyddiant eu hadroddiad diwethaf (y pedwerydd adroddiad). Gan fod y Comisiwn yn ystyried y gallant gyflwyno adroddiad cyn dengmlwyddiant eu hadroddiad diwethaf (h.y. 16 Rhagfyr 2004), bydd yn ofynnol iddynt ystyried y ffiniau sir a gedwir a fydd mewn grym ar ddyddiad eu hadroddiad.

16. Ers i'r pedwerydd arolwg gael ei gwblhau, mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 wedi creu dau ddeg dau o awdurdodau unedol yng Nghymru. Er bod yr awdurdodau unedol wedi'u diffinio'n statudol fel siroedd, yn nhermau rheol 4 o'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi, mae'r Ddeddf yn cadw'r wyth sir yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio'r wyth sir "a gedwir" fel ardaloedd eu harolwg yn ystod y pumed arolwg cyffredinol. Yn ogystal, sefydlodd Deddf 1994 y siroedd a gedwir a diwygiodd rheol 4 er mwyn iddi ymwneud â'r ffiniau sir a gedwir yng Nghymru. Ar 11 Mawrth 2002, cyfarwyddwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal arolwg o'r siroedd a gedwir yng Nghymru. Cyflwynodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru eu hadroddiad ar 16 Tachwedd 2002.

Ystriodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr adroddiad hwn ac, ar 1 Ebrill 2003, gwnaethant orchymyn yn gweithredu'r cynigion hyn. Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r siroedd a gedwir diwygiedig fel ardaloedd eu harolwg.

17. Ym 1996, rhannwyd yr awdurdodau unedol yn rhanbarthau etholiadol a gynrychiolir gan un neu fwy o gynghorwyr ar y cyngor lleol. Mae pob un o'r rhanbarthau etholiadol hyn wedi'u harolygu gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ers hynny. Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru y set derfynol o orchmynion etholiadol ar 6 Rhagfyr 2002 a fydd yn dod i rym ar 6 Mai 2004. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu defnyddio'r rhanbarthau etholiadol hyn fel y sail i ffurfio etholaethau seneddol yn ystod eu harolwg.

**Adroddiadau interim**

18. Rhwng eu harolygon cyffredinol, mae gan y Comisiwn y pŵer i gynnal arolygon interim o grwpiau o etholaethau seneddol. Defnyddiwyd arolygon interim yn draddodiadol i ailffurfio ffiniau etholaethau seneddol gyda ffiniau llywodraeth leol wedi'u newid. Mae hyn er mwyn dileu'r dryswch a fyddai'n cael ei achosi i'r etholwyr lleol, a lleihau'r amhariad i sefydliadau pleidiau gwleidyddol lleol a'r problemau gweinyddol a achosir i Gofrestriad Etholiadol a Swyddogion Etholiad o ganlyniad i fodolaeth ffiniau gwahanol at ddibenion seneddol a llywodraeth leol.

19. Ceir rhestr o adroddiadau cyhoeddedig ar arolygon cyffredinol ers sefydlu'r Comisiwn yn barhaol ym 1944, ynghyd â phapurau eraill a gynhyrchwyd, yn Atodiad C i'r llyfryn hwn.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref**

20. Cynhaliodd Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i'r rheolau a'r gweithdrefnau presennol ar gyfer ailddosbarthu seddi a chyflwynwyd adroddiad ar hyn ym mis Chwefror 1987 yn eu Hail Adroddiad o Sesiwn 1986-87 (HC 97-1).

21. Y prif faes a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor oedd y cynnydd cronnol yn nifer yr etholaethau yn y DU sydd wedi digwydd gyda phob arolwg cyffredinol. O ganlyniad i bedwar adroddiad cyfnodol (a gyhoeddwyd ym 1954, 1969, 1983 ac 1995), mae nifer y seddi yng Nghymru wedi cynyddu o 36 i 40. Ym 1950, 625 oedd cyfanswm yr Aelodau Seneddol yn y DU, ac erbyn 1997 roedd 659 o Aelodau Seneddol.

22. Achos y cynnydd ychwanegol yw effaith gyfunol y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi a gynhwysir yn Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (gweler Atodiad D). Mae Rheol 8 yn diffinio'r cwota etholiadol (ffigur amcangyfrifedig etholwyr etholaethau) fel cyfanswm etholwyr Cymru wedi'i rannu gyda nifer <u>bresennol</u> y seddi. Felly, caiff unrhyw seddi ychwanegol a grëwyd o dan reolau 5 a 6 (am resymau sy'n ymwneud â chydraddoldeb etholiadol a daearyddiaeth) mewn un arolwg eu cynnwys yn y rhannydd ar gyfer cyfrifo'r cwota etholiadol ar gyfer yr arolwg nesaf, gan greu effaith clicied.

23. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid sefydlogi maint Tŷ'r Cyffredin mor agos â phosibl i'w lefel bryd hynny drwy ddefnyddio rhannydd <u>sefydlog</u> ar gyfer cyfrifo'r cwota etholiadol.

24. Atebodd y Llywodraeth adroddiad y Pwyllgor ym mis Chwefror 1988 (Cm.308). Roedd y Llywodraeth yn cydymdeimlo â barn y Pwyllgor y dylid sefydlogi Tŷ'r Cyffredin ar ei lefel

bryd hynny ond gwrthododd y dull rhannydd sefydlog (am na fyddai bob amser yn cynhyrchu'r un nifer o seddi yn union) ac ni chynigiodd ddewis amgen ei hun.

25. Ystyriodd y Pwyllgor Dethol hefyd y lefelau gwahanol o gynrychiolaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon e.e. ar gyfartaledd, mae AS yn Lloegr yn cynrychioli tua 70,000 o etholwyr tra byddai AS yng Nghymru yn cynrychioli tua 56,000 o etholwyr. Eglurodd y Pwyllgor na fyddai'n anodd yn dechnegol i ddiwygio'r rheolau i gyflawni un cwota etholiadol yn y DU. Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw argymhelliad.

26. Argymhellwyd dau newid gweinyddol gan y Pwyllgor ac fe'u derbyniwyd gan y Llywodraeth:

(a) ymestyn y cyfnod statudol, pan ellir gwneud sylwadau am argymhellion Comisiwn, o un mis i ddau; a

(b) sefydlu'r dyddiad cyfrif ar gyfer arolwg fel y dyddiad y cyhoeddir y gofrestr ddiweddaraf o etholwyr yn hytrach na'r dyddiad y cyhoeddir hysbysiad y Comisiwn yn datgan dechrau arolwg yn y London Gazette.

27. Ni ddeilliodd cyfle deddfwriaethol addas er mwyn gweithredu'r argymhellion hynny.

28. Ym 1995, yn ystod y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i weithredu'r argymhellion a gynhwysir ym mhedwerydd adroddiad cyfnodol y Comisiwn, bu nifer o Aelodau Seneddol yn gofyn am ostwng nifer yr etholaethau. Addawodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd arolwg o'r rheolau, ond hyd yma, ni chynhaliwyd arolwg.

**Cyfansoddiad presennol Tŷ'r Cyffredin**

29. Ar hyn o bryd, mae cyfansoddiad Tŷ'r Cyffredin fel a ganlyn:

| | Nifer y seddi |
|---|---|
| Cymru | 40 |
| Lloegr | 529 |
| Yr Alban | 72 |
| **Prydain Fawr** | **641** |
| Gogledd Iwerddon | 18 |
| **Y Deyrnas Unedig** | **659** |

30. Cyn 1998, roedd rheol 1 o'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi a gynhwysir yn Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 yn nodi:

(a) Na fydd nifer y seddi ym Mhrydain Fawr yn sylweddol fwy nac yn sylweddol lai na 613;

(b) Na fydd nifer y seddi yn yr Alban yn llai na 71;

(c) Na fydd nifer y seddi yng Nghymru yn llai na 35; ac

(d) Na fydd nifer y seddi yng Ngogledd Iwerddon yn fwy na 18 nac yn llai na 16.

31. Ni roddwyd ffigur ar gyfer seddi yn Lloegr ac ni roddwyd uchafswm ar gyfer Cymru a'r Alban. Fodd bynnag, ymddangosodd mai bwriad y rheol oedd na ddylai nifer y seddi yn Lloegr fod yn sylweddol fwy nac yn sylweddol lai na 507. Ymddangosodd hefyd y dylai nifer y seddi ym Mhrydain Fawr aros yn weddol gyson ac y dylid gwrthbwyso unrhyw gynnydd yng Nghymru neu'r Alban gan ostyngiadau yn Lloegr. Fodd bynnag, fel yr eglurir yn "Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref" uchod, effaith y rheolau eraill oedd cynyddu nifer y seddi yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

32. Diwygiwyd rheol 1 o'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi gan Ddeddf yr Alban 1998. Diddymodd pob cyfeiriad at yr isafswm o 71 o seddi i'r Alban. Yn ogystal, mae adran 81 o'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn Ffiniau i'r Alban yn cymhwyso cwota etholiadol Lloegr ar ddechrau eu harolwg cyffredinol nesaf. Effaith rifyddol cymhwyso cwota etholiadol Lloegr (a gyfrifwyd ar gofrestr etholiadol 2003) fyddai gostwng nifer y seddi yn yr Alban o'r 72 o seddi presennol i lai na 60 o seddi.

33. Wrth drafod eu polisi ar gyfer eu pumed arolwg cyffredinol, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynnydd blaenorol yn nifer y seddi yng Nghymru mewn perthynas â gofynion rheol 1, a'r posibilrwydd o gynnydd pellach o ganlyniad i'r pumed arolwg cyffredinol. Cytunodd y Comisiwn i beidio â gosod targed ar gyfer uchafswm y nifer o seddi ond i gael nod cyffredinol o argymell etholaethau cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol tra'n ystyried rheol 1 ar yr un pryd.

**Etholaethau Senedd Ewrop**

34. Yn flaenorol, roedd y Comisiwn yn gyfrifol am gynnal arolwg o Etholaethau Senedd Ewrop. Fodd bynnag, dilëwyd y cyfrifoldeb hwn gan Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 1999, a gyflwynodd system ranbarthol o gynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop.

**Comisiwn Etholiadol**

35. Ar 27 Gorffennaf 1999, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn, "Ariannu Pleidiau Gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig" a Mesur drafft, "Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda", mewn ymateb i Bumed Adroddiad y Pwyllgor ar Safonau ym Mywyd Cyhoeddus.

36. Darparodd y Mesur ar gyfer sefydlu Comisiwn Etholiadol a fyddai'n gwbl annibynnol ar Lywodraeth y dydd. Ymhlith pethau eraill, rôl y Comisiwn Etholiadol fyddai moderneiddio peirianwaith etholiadol y Deyrnas Unedig a hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o'r broses ddemocrataidd ymhlith y cyhoedd. Darparodd y Mesur hefyd ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau a gyflawnir gan y pedwar Comisiwn

Ffiniau Seneddol i'r Comisiwn Etholiadol, unwaith y byddant wedi cwblhau eu pumed cyfres o arolygon cyffredinol. Derbyniodd y Mesur Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000. Er y bydd y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y pen draw, nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar yr arolwg cyffredinol presennol a fydd yn parhau yn ôl y bwriad.

**Trosglwyddo'r Cyfrifoldeb dros y Gyfraith Etholiadol**

37. O ganlyniad i ad-drefnu peirianwaith y Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl etholiad cyffredinol ym mis Mehefin 2001, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y gyfraith etholiadol o'r Swyddfa Gartref i'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR). Yn dilyn ad-drefniant pellach ym mis Gorffennaf 2002, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y gyfraith etholiadol i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

PENNOD 4

# MEINI PRAWF AR GYFER CYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL

**Cymhwyso darpariaethau statudol**

1. Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y bennod nesaf yr un mor gymwys i arolygon cyffredinol ac arolygon interim o etholaethau seneddol. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhwng y ddau fath o arolwg.

**Arolygon cyffredinol**

2. Mae arolygon cyffredinol yn orfodol. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad cyfnodol ar arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru heb fod yn llai nag wyth mlynedd nac yn fwy na deuddeng mlynedd o'r dyddiad y cyflwynwyd eu hadroddiad cyfnodol diwethaf – yn achos yr arolwg cyffredinol presennol (y pumed adroddiad), rhwng 2002 a 2006. Gallai arolygon cyffredinol gynnwys rhai newidiadau ar raddfa fawr, weithiau gan gynnwys newidiadau i nifer yr etholaethau mewn ardal. Maent yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cwblhau a gallant, yn rhannol, fod yn ddadleuol.

**Arolygon interim**

3. Cynhelir arolygon interim yn ôl disgresiwn. Rhwng yr amseroedd y cynhelir arolygon cyffredinol, mae gan y Comisiwn y dewis i gynnal arolygon interim o un etholaeth neu fwy. Mae arolygon interim fel arfer yn cynnwys mân newidiadau i nifer fach o etholaethau, fel arfer o ganlyniad i newidiadau i ffiniau llywodraeth leol. Maent yn cymryd llai na blwyddyn i'w cwblhau ac yn gyffredinol maent yn llai dadleuol, er y gallai fod angen ymchwiliad cyhoeddus ar adegau.

**Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi**

4. Wrth gynnal arolygon o etholaethau a gwneud eu hargymhellion, mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi sy'n ffurfio Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. Atgynhyrchir y rheolau yn Atodiad D. Yn fras, mae gan y rheolau hyn y nodweddion canlynol mewn perthynas ag arolygon yng Nghymru:

   (a) terfyn ar gyfanswm yr etholaethau ym Mhrydain Fawr gydag isafswm ar gyfer Cymru;

   (b) pob etholaeth i ddychwelyd un aelod;

   (c) cyhyd ag y bo'n ymarferol, ni ddylai etholaethau groesi ffiniau sir a gedwir; a

(d) dylai nifer etholwyr etholaethau fod cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol.

5. Awdurdodir gwyriadau i'r rheolau mewn sawl modd, yn nodedig er mwyn:

(a) osgoi gormod o anghysondeb yn yr etholaethau;

(b) cadw ystyriaethau daearyddol arbennig mewn cof; neu

(c) ystyried yr anghyfleustra a fyddai'n cael ei achosi a'r cysylltiadau lleol y byddai'n cael eu torri o ganlyniad i newidiadau i etholaethau.

6. Y cwota etholiadol yw nifer yr etholwyr mewn etholaeth ar gyfartaledd, a chyfrifir hyn drwy rannu cyfanswm yr etholwyr seneddol yng Nghymru ar y "dyddiad cyfrif" h.y. ar y dyddiad y cyhoeddir yr arolwg yn ffurfiol yn y London Gazette, gyda nifer bresennol yr etholaethau yng Nghymru. Y cwota etholiadol ar gyfer yr arolwg cyffredinol a ddechreuodd yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2002 yw 55,640 (cyflenwir ffigurau etholiadol 2003 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

7. Mae'r ymadrodd "ystyriaethau daearyddol arbennig" wedi'i ddiffinio yn rheol 6 Atodlen 2 i Ddeddf 1986 fel a ganlyn: "gan gynnwys yn arbennig maint, siâp a hygyrchedd etholaeth". Mae rheol 6 Atodlen 2 yn caniatáu i'r Comisiwn wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os bydd ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn arbennig maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn ymddangos iddynt fel pe baent yn cyfleu bod gwyro'n ddymunol (cyfeirir rheolau 4 a 5 at osgoi etholaethau sy'n croesi ffiniau sir a gedwir, a chreu etholaethau sydd ag etholwyr cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n bosibl. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar y gallu i ffurfio etholaeth nad yw'n croesi ffin sir a gedwir, neu sydd ag etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol, yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd, ynysoedd ac ati yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Nid yw materion sy'n ymwneud â diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau posibl eraill ar ddaearyddiaeth nad yw'n ffisegol yn debygol o gael unrhyw effaith ar ba mor ddymunol y byddai croesi ffiniau sir a gedwir, na pha mor ddymunol y byddai gwyro oddi wrth y cwota etholiadol. Fodd bynnag, gallai rhai o'r materion hynny godi fel materion wrth ystyried rhwymau lleol o dan ail gymal rheol 7.

**Enwau**

8. Wrth wneud eu hargymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Comisiwn yn argymell enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw arweiniad ar y pwyntiau hyn.

9. Pan fydd etholaethau yn parhau i fod yn ddigyfnewid yn y bôn, mae'r Comisiwn yn tueddu i gadw'r enwau presennol os byddant yn briodol o hyd. Ar gyfer etholaeth newydd, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai'r enw fel arfer adlewyrchu enw'r awdurdod unedol neu'r awdurdodau unedol a gynhwysir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag, os gwrthwynebir enw a argymhellir gan y Comisiwn, a bod enw

amgen addas ar gael sy'n ennyn mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn fel arfer yn diwygio eu hargymhellion o blaid yr enw amgen hwnnw. Gan mai dim ond un enw a ganiateir, ni fydd yn bosibl cael enw Cymraeg ac enw Saesneg amgen ar gyfer etholaeth (na fel arall). Fodd bynnag, gellir defnyddio un enw dwyieithog (fel Casnewydd Newport).

**Dynodiad**

10. Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai etholaethau sy'n cynnwys elfen wledig sylweddol fel arfer gael eu dynodi yn etholaethau sir. Fel arall, dylid eu dynodi yn etholaethau bwrdeistref. Yn gyffredinol, mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel swyddog etholiad yr etholiadau seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn effeithio ar lefel treuliau ymgeisydd a ganiateir yn ystod etholiadau. Mae lefel y treuliau ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistref, er mwyn adlewyrchu costau is cynnal ymgyrch mewn ardal drefol, sydd fel arfer yn gywasgedig. Atodir y dynodiad i enw'r etholaeth ac fe'i talfyrrir fel arfer: BC ar gyfer etholaeth bwrdeistref neu CC ar gyfer etholaeth sir.

**Ymarfer**

11. Wrth ystyried eu gweithdrefnau ar gyfer arolwg cyffredinol, mae'r Comisiwn yn ymgynghori â'r prif bleidiau gwleidyddol ar faterion eang sy'n ymwneud â threfn cyn yr arolwg. Wrth lunio eu hargymhellion dros dro ar gyfer ardaloedd penodol, nid yw'r Comisiwn yn ymgynghori â'r prif bleidiau gwleidyddol, yr awdurdodau lleol na'r grwpiau eraill sydd â diddordeb. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylent achub y blaen wrth baratoi argymhellion dros dro o'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt. Felly, ffurfir yr argymhellion gan y Comisiwn o safle annibynnol a diduedd ac ni fydd unrhyw safbwynt na barn benodol yn dylanwadu arnynt. Unwaith i'r cynigion gael eu cyhoeddi, mae'r gweithdrefnau statudol yn caniatáu dadl gyhoeddus lawn ac yna gall partïon sydd â diddordeb fynegi eu barn i'r Comisiwn.

12. Yn ystod eu pedwerydd arolwg cyffredinol, defnyddiodd y Comisiwn wardiau dosbarth fel yr uned leiaf ar gyfer cynllunio etholaethau ac ni rannwyd y wardiau rhwng etholaethau. Yn ystod eu pumed arolwg, bydd y Comisiwn yn defnyddio rhanbarthau etholiadol fel sail. Yn gyffredinol, mae'r rhanbarthau etholiadol yn nodi ardaloedd sydd â chymuned o ddiddordeb a seilir y sefydliadau pleidiau gwleidyddol lleol arnynt, neu ar grwpiau ohonynt. Felly, mae rhannu'r unedau hyn rhwng etholaethau yn debygol iawn o dorri rhwymau lleol, amharu ar sefydliad plaid wleidyddol, peri anawsterau i'r Cofrestriad Etholiadol a'r Swyddogion Etholiad a drysu'r etholwyr.

13. Nid yw'r Comisiwn yn seilio eu hargymhellion ar niferoedd etholwyr a ragwelwyd neu niferoedd etholwyr a amcangyfrifwyd nac ar boblogaethau, boed yn wirioneddol neu'n amcangyfrif. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn seilio eu hargymhellion ar nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholiadol ar ddechrau arolwg ac ni allant ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru etholwyr a honnir mewn rhai ardaloedd.

14. O dan y rheolau, mae yna sawl ffordd gystal â'i gilydd y gellir dosbarthu etholaethau o fewn ardal y cynhelir arolwg ohoni. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ganddynt ddisgresiwn cyffredinol i ddewis rhwng y ffyrdd gwahanol y gellir rhannu sir a gedwir yn etholaethau

i fod yn gyson â'r rheolau uchod. Gall llawer o ystyriaethau, gan gynnwys rhai na chrybwyllir yn benodol yn unrhyw un o'r rheolau, ddylanwadu ar beth sy'n ymarferol a beth nad yw'n ymarferol. Er enghraifft, mae'r Comisiwn yn aml yn ystyried nodweddion daearyddol, nid fel achos o beidio ag awdurdodi gwyro oddi wrth reol 4 na rheol 5, gan fod rheol 6 yn eu hawdurdodi'n benodol i wneud hynny, ond fel achos o gyfiawnhau un cynllun penodol ar gyfer rhannu sir a gedwir yn etholaethau yn hytrach nag un arall. Gall afonydd, prif ffyrdd, yn arbennig traffyrdd a hyd yn oed rheilffyrdd, gael effaith o'r fath. Yn yr un modd, gall ffactorau eraill nad ydynt yn gwbl ddaearyddol, fel dalgylchoedd ysgol ac ardaloedd teithio i'r gwaith, ddylanwadu ar ddewisiadau rhwng cynlluniau posibl amrywiol sy'n cydymffurfio â'r rheolau.

15. Yn y cyd-destun hwn y daw'r cwestiwn o dwf (neu ostyngiad) yn niferoedd yr etholwyr yn berthnasol. Wrth ystyried y sefyllfa o ran twf ar ôl y dyddiad cyfrif, mae'r Comisiwn yn gwahaniaethu rhwng y mathau gwahanol o dwf o'r fath. Yn gyntaf, ceir twf y gellir dangos ei fod wedi digwydd, fel arfer drwy gyfeirio at gofrestri etholiadol a gyhoeddwyd ers y dyddiad cyfrif, erbyn y cyfnod y daw'r Comisiwn i wneud argymhelliad. Byddai anwybyddu'n llwyr gynnydd sylweddol sy'n bodoli yn nifer yr etholwyr wrth ddewis rhwng cynlluniau posibl yn ymddangos yn afrealistig i'r Comisiwn.

16. Yn ail, ceir twf a allai ddigwydd yn y dyfodol ar ôl y cyfnod y bydd y Comisiwn yn gwneud eu hargymhellion. Gallai hyn amrywio o'r twf damcaniaethol iawn, sy'n seiliedig ar gynlluniau arfaethedig adeiladwyr ac awdurdodau cynllunio, i'r twf tebygol iawn lle y bydd safleoedd yn y broses o gael eu datblygu. Nid yw'r Comisiwn yn rhoi unrhyw ystyriaeth i brojectau y gellir eu disgrifio fel projectau damcaniaethol. Fodd bynnag, os byddant yn fodlon y ceir twf yn y dyfodol agos iawn, credant fod ganddynt hawl i ystyried hyn wrth ddewis rhwng opsiynau a ganiateir.

17. Yn fyr, nid yw'r Comisiwn o'r farn bod yn rhaid iddynt gau eu llygaid yn gyfan gwbl i dwf (neu ostyngiad) sydd wedi digwydd ers y dyddiad cyfrif neu a fydd yn digwydd yn eu barn hwy. Ar y llaw arall, ni ellir ystyried trin y cwota etholiadol fel unrhyw beth heblaw am yr hyn yr ydyw erbyn hyn, sef, 55,640 ar gyfer yr arolwg cyffredinol hwn, a dim ond wrth ddewis rhwng cynlluniau a ganiatier fel arall o dan y rheolau y gellir ystyried y ffactor twf (neu ostyngiad) ers y dyddiad cyfrif.

18. Weithiau, gofynnir i'r Comisiwn ystyried amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar ardal benodol ac sydd, yn ôl y rhai sy'n gwneud y cais, yn cyfiawnhau cynrychiolaeth fwy ffafriol nag a geir mewn ardaloedd eraill h.y. creu etholaeth â nifer isel o etholwyr, er mwyn lleihau baich gwaith yr AS. Gallai'r problemau godi mewn etholaethau mawr gwledig neu mewn etholaethau mewn ardaloedd canol dinas. Ar wahân i'r hyn a nodwyd gan nifer yr etholwyr neu unrhyw ystyriaethau daearyddol arbennig, nid yw'n ofynnol i'r Comisiwn gadw'r ystyriaethau eraill hyn mewn cof wrth bennu eu hargymhellion dros dro, ac nid ydynt yn eu hystyried chwaith.

**Ffactorau perthnasol eraill**

19. Nid yw rheol 4 o'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried ffiniau awdurdodau unedol yng Nghymru, ond mae'r rhain bellach yn ardaloedd gweinyddol lleol y gellir eu nodi'n hawdd ac yn amlwg, ni fyddai'n ddoeth

anwybyddu eu ffiniau. Fodd bynnag, mae gan lawer o awdurdodau unedol niferoedd etholwyr sy’n rhy fawr i ffurfio etholaethau gydag etholwyr yn agos i’r cwota etholiadol. Er mai bwriad y Comisiwn yw defnyddio ffiniau awdurdodau unedol cymaint ag y bo’n ymarferol, yn aml bydd yn angenrheidiol croesi ffiniau awdurdodau unedol neu rannu awdurdodau unedol rhwng etholaethau er mwyn osgoi anghysondebau eithafol o ran etholwyr etholaethau cyfagos.

20. Ymhlith y wybodaeth arall a ystyrir fel rheol gan y Comisiwn, o ganlyniad i ddefnyddio mapiau yn ystod eu trafodaethau ar ailddosbarthu amgen, mae, er enghraifft, prif ffyrdd, rheilffyrdd, a llinellau cyfathrebu eraill; cyfosod ardaloedd trefol a gwledig; canolbwyntiau a dalgylchoedd h.y. trefi bach mewn ardaloedd gwledig a chanolfannau mewn trefi mawr ac ardaloedd trefol.

**Mapiau**

21. Mae’r Comisiwn o’r farn bod mapiau yn chwarae rôl bwysig iawn wrth gynnal arolwg o etholaethau seneddol. Mae’r Comisiwn yn cael cyngor arbenigol ar fapio gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans sy’n aseswr (h.y. ymgynghorydd arbenigol) i’r Comisiwn. Nid yn unig y mae’r Comisiynwyr eu hunain yn defnyddio mapiau wrth lunio eu cynigion ond maent hefyd yn trefnu i fapiau gael eu cyhoeddi er mwyn helpu i ddangos eu cynigion. Nid yw cyhoeddi mapiau o’r fath yn ofyniad statudol ond mae’r Comisiwn yn sylweddoli ei bod yn haws i aelodau o’r cyhoedd weld sut mae’r cynigion yn effeithio arnynt drwy edrych ar fap.

**Yr iaith Gymraeg**

22. Mae’r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi mabwysiadu’r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a’r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

23. Mae Adran 7 Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 yn mynnu bod gan gyrff cyhoeddus sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru gynllun iaith Gymraeg. Wrth baratoi cynllun o’r fath, mae’n rhaid ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Paratôdd y Comisiwn gynllun a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 10 Tachwedd 1997. Mae copi o’r cynllun ar gael ar gais (gweler y pwyntiau cyswllt ym Mhennod 8).

24. Mae’r ymgymeriadau a gynhwysir yn y cynllun iaith Gymraeg fel a ganlyn:

(a) bydd pob dogfen a gyhoeddir gan y Comisiwn yn cael ei chyhoeddi yn y ddwy iaith;

(b) bydd holl ddeunydd papur y Comisiwn yn cael ei argraffu’n ddwyieithog a chynhwysir datganiad safonol sy’n nodi bod y Comisiwn yn croesawu cyswllt yn Gymraeg;

(c) bydd y Comisiwn yn anfon gohebiaeth Gymraeg at unigolion neu grwpiau y gwyddys bod yn well ganddynt ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg;

(d) bydd cylchlythyrau, datganiadau newyddion, datganiadau i'r wasg, llyfrynnau gwybodaeth, datganiadau ymchwiliadau cyhoeddus, adroddiadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac unrhyw ddeunydd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog (ac fel un ddogfen) a byddant yn cynnwys datganiad safonol sy'n nodi bod y Comisiwn yn croesawu cyswllt yn Gymraeg;

(e) bydd unrhyw benawdau, allweddi, esboniadau, nodiadau eglurhaol neu rybuddion hawlfraint a ychwanegir gan y Comisiwn at fapiau a geir gan gyflenwyr mapiau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog;

(f) lle bynnag y bo'n bosibl, bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n siarad Cymraeg i gynnal ei ymchwiliadau cyhoeddus pan ragwelir y bydd nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan;

(g) bydd y Comisiwn yn cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol i fynychu ei ymchwiliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;

(h) bydd y Comisiwn yn ceisio cyflogi rhywun sy'n siarad Cymraeg ymhlith ei Ysgrifenyddiaeth pa bryd bynnag y caiff staff newydd eu recriwtio. Er mwyn hyrwyddo'r nod hwn ymhellach, bydd y Comisiwn yn cynnwys y gallu i siarad Cymraeg fel gofyniad dymunol ar gyfer swyddi o fewn ei Ysgrifenyddiaeth;

(i) bydd y Comisiwn yn ateb pob gohebiaeth yn yr iaith a ddewisir gan y gohebydd;

(j) bydd y Comisiwn yn ymateb i bob gohebiaeth o fewn deng niwrnod gwaith i dderbyn y llythyr, ni waeth a ddylid anfon yr ateb yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog; a

(k) bydd y Comisiwn yn ateb pob galwad ffôn yn yr iaith a ddewisir gan yr unigolyn sy'n ffonio.

25. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn ymchwiliadau lleol. Maent wedi cytuno y dylai ddau gyfieithydd ar y pryd fynychu pob ymchwiliad lleol.

26. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol sy'n siarad Cymraeg mewn ymchwiliadau lleol pan fydd yn debygol y caiff llawer o Gymraeg ei siarad.

PENNOD 5

# GWEITHDREFNAU AR GYFER CYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL

**Dechrau'r Arolwg**

1. Ar ddechrau arolwg cyffredinol neu arolwg interim o etholaethau seneddol, mae'n ofynnol i'r Comisiynau roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Dirprwy Brif Weinidog o'u bwriad i ystyried gwneud adroddiad. Yna, mae'n rhaid i'r Dirprwy Brif Weinidog gyhoeddi copi o'r hysbysiad yn y London Gazette. Daw dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad yn ddyddiad cyfrif yr arolwg ac mae'n rhaid i gynigion y Comisiwn fod yn seiliedig ar nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholiadol, ac felly'r cwota etholiadol, ar y dyddiad hwnnw.

2. Fel arfer, gwneir trefniadau i'r Dirprwy Brif Weinidog ateb cwestiynau am yr hysbysiad yn Nhŷ'r Cyffredin. Fel mater o gwrteisi, mae'r Comisiwn fel arfer yn hysbysu pencadlys cenedlaethol y prif bleidiau gwleidyddol, Aelodau Seneddol, Cymdeithasau Cenedlaethol Cymru, Aelodau'r Cynulliad, awdurdodau lleol, a phartïon eraill â diddordeb, o ddechrau'r arolwg.

**Argymhellion dros dro**

3. Mae'r Comisiwn yn cael ffigurau etholaeth y dyddiad cyfrif gan y swyddogion cofrestriad etholiadol, naill ai'n uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Pan dderbynnir yr holl ffigurau, cyfrifir y cwota etholiadol drwy rannu cyfanswm nifer yr etholwyr yng Nghymru gyda nifer bresennol yr etholaethau yng Nghymru.

4. Er mwyn gweithredu rheol 4 o'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi, mae'r Comisiwn fel arfer yn ystyried pob un o'r wyth sir ar wahân. Yn ystod y pumed arolwg cyffredinol, caiff pob un o'r wyth sir a gedwir ei thrin fel un ardal arolwg. Fodd bynnag, mae gan y Comisiwn hawl o dan reol 5 i argymell etholaethau sy'n croesi ffiniau'r siroedd a gedwir hyn, pan fydd hyn yn cynhyrchu etholaethau â niferoedd etholwyr sy'n agosach i'w gilydd neu'r cwota etholiadol.

5. Caiff y rheolau eu llunio yn y fath fodd fel y bydd gofyniad rheol 4, sy'n nodi na ddylai etholaethau groesi ffiniau sir a gedwir cyhyd ag y bo'n ymarferol, yn cael blaenoriaeth dros reol 5, sy'n nodi y dylai niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth fod cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol. Yn ystod yr arolwg cyffredinol diwethaf, nid oedd y Comisiwn yn teimlo bod angen iddynt arfer yr hawl hon a roddir iddynt gan reol 5 i groesi ffiniau sir, a chafodd seddi unigol eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn sir.

6. Er mwyn sefydlu nifer yr etholaethau y dylid eu dyrannu i sir a gedwir, mae'r Comisiwn yn mabwysiadu'r arfer o rannu nifer etholwyr sir a gedwir gyda'r cwota etholiadol. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynhyrchu nifer yr etholaethau y mae gan y sir a gedwir hawl iddi yn ddamcaniaethol, a'r ffigur hwn a ddefnyddir gan y Comisiwn fel dangosydd ar

gyfer nifer y seddi sydd i'w dyrannu. Anaml iawn y bydd y canlyniad yn rhif llawn, ond mae'n rhaid dyrannu rhif llawn o etholaethau oni fydd y ffin sir a gedwir yn cael ei chroesi.

7. Fel arfer, talgrynnir yr hawl ddamcaniaethol i'r rhif llawn agosaf er mwyn ceisio gweithredu rheol 1 ond, ar adegau, gellir talgrynnu hawl ddamcaniaethol ymylol i fyny i'r rhif llawn agosaf yn lle ei thalgrynnu i lawr er mwyn gweithredu rheolau eraill.

8. Yna, rhennir nifer etholwyr y sir a gedwir gyda nifer yr etholaethau llawn y penderfynwyd dros dro y cânt eu dyrannu, er mwyn canfod cyfartaledd nifer etholwyr yr etholaethau o fewn yr ardal. Anaml y ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y ffigur ar gyfartaledd hwn a'r cwota etholiadol. Nod y Comisiwn yw sefydlu etholaethau sy'n cynnwys niferoedd etholwyr sy'n agos i'r cyfartaledd o fewn y sir er mwyn sicrhau y bydd llai o debygolrwydd o anghysondebau mawr rhwng niferoedd etholwyr yr etholaethau canlyniadol.

9. Gan gadw'r holl ystyriaethau a grybwyllwyd ym mhennod 4 mewn cof a chan ddefnyddio rhanbarthau etholiadol, neu awdurdodau unedol cyfan lle y bo'n briodol, fel sail, mae'r Comisiwn yn penderfynu dros dro sut i rannu'r ardal yn nifer o etholaethau a ddyrennir dros dro iddi.

**Cyhoeddi**

10. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar eu hargymhellion dros dro ar gyfer sir a gedwir, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi, mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu ym mhob etholaeth yn y sir a gedwir, hysbysiad yn datgan:

    (a) effaith yr argymhellion arfaethedig ar gyfer y sir a gedwir h.y. enw, dynodiad, cynnwys (awdurdodau unedol neu ranbarthau etholiadol), a'r etholwyr ar gyfer pob etholaeth arfaethedig;

    (b) cyfeiriad o fewn pob etholaeth lle y gallai'r cyhoedd archwilio'r argymhellion dros dro; a

    (c) y gellir gwneud sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn am yr argymhellion dros dro o fewn un mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad.

11. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r Comisiwn weithiau yn dosbarthu dogfennau i fwy nag un cyfeiriad o fewn pob etholaeth. Y cyfeiriadau lle y gall y cyhoedd archwilio'r cynigion fel arfer yw'r rhai ar gyfer awdurdodau lleol, er y gellir defnyddio lleoedd eraill fel llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn ogystal â dosbarthu copi o'r hysbysiadau i'r cyfeiriadau hynny, ac er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y cynigion yn well, mae'r Comisiwn hefyd yn adneuo mapiau manwl o'r sir a gedwir sy'n dangos, ymhlith pethau eraill, enw, dynodiad a ffin pob etholaeth bresennol a phob etholaeth arfaethedig.

12. Er mwyn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r argymhellion dros dro, mae'r Comisiwn yn anfon copïau o'r hysbysiad i bob parti â diddordeb (e.e. awdurdodau lleol, Aelodau Seneddol, academyddion, ac ati). Mae awdurdodau lleol a llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd yn derbyn copïau o'r mapiau manwl. Cyn i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi yn y papurau

newydd, mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiad newyddion i adrannau newyddion y cyfryngau, sy'n trafod yr argymhellion dros dro, y cyfnod cyflwyno syniadau, a gweithdrefnau dilynol arolwg (e.e. ymchwiliad lleol, adroddiad ac ati).

13. Rhoddir copïau o bob datganiad newyddion a gyhoeddir gan y Comisiwn ar safle'r Comisiwn ar y Rhyngrwyd – www.bcomm-wales.gov.uk

**Sylwadau**

14. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir iddynt o fewn y cyfnod statudol o un mis. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n gwneud sylwadau ddweud a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn. Yn arbennig, cynghorir gwrthwynebwyr i ddweud yr hyn y maent yn ei gynnig yn lle argymhellion y Comisiwn. Mae gwrthwynebiad ynghyd â gwrth-gynnig yn debygol o gael mwy o effaith na datganiad syml o wrthwynebiad. Felly, mae gwrth-gynnig sy'n nodi cyfansoddiad pob etholaeth mewn ardal arolwg fel arfer yn fwy argyhoeddiadol na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n ymdrin ag unrhyw sgîl-effeithiau yn rhywle arall yn ardal yr arolwg.

15. Mae'r Comisiwn yn awyddus bod pob darn o wybodaeth sydd ar gael yn cael ei gyflwyno gerbron ymchwiliad lleol i sicrhau bod penderfyniad a ystyriwyd yn cael ei wneud yn seiliedig ar ffeithiau i gyd. Fodd bynnag, os caiff sylwadau, ac yn arbennig gwrth-gynigion, eu cyflwyno'n hwyr, efallai na fydd yn bosibl pwyso a mesur faint o gefnogaeth, os o gwbl, sy'n bodoli ar eu cyfer. Felly, **cynghorir y bobl hynny sydd am wneud gwrth-gynigion i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno mewn pryd**. Gellir eu harddangos yn gyhoeddus cyn yr ymchwiliad er mwyn i bobl eraill â diddordeb gael y cyfle i'w hastudio.

**Ymchwiliad lleol**

16. Mae'r adran hon yn egluro'r cyfleoedd sydd ar gael mewn ymchwiliadau lleol i aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau gymryd rhan yn y ddadl i gynigion y Comisiwn ar gyfer ailddosbarthu etholaethau seneddol.

17. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol os derbynnir sylwadau yn gwrthwynebu'r argymhellion dros dro ar gyfer unrhyw etholaeth gan awdurdod lleol â diddordeb (h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol ar gyfer yr ardal sydd wedi'i leoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn yr etholaeth dan sylw) neu gorff o 100 neu fwy o etholwyr. Yn ogystal, mae gan y Comisiwn yr hawl i orchymyn ymchwiliad lleol hyd yn oed pan na dderbynnir gwrthwynebiadau o'r fath, ond pan fydd y Comisiwn yn credu y byddai cynnal un yn fuddiol.

18. Cynhelir yr ymchwiliad ar ran y Comisiwn gan Gomisiynydd Cynorthwyol (cyfreithiwr annibynnol) a ddewisir o banel o Gomisiynwyr Cynorthwyol a benodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog. Cynhelir yr ymchwiliad mewn man cyhoeddus cyfleus o fewn y sir arfaethedig y cynhelir arolwg ohoni, fel siambrau cyngor un o gynghorau'r awdurdod unedol. Gall unrhyw berson neu sefydliad â diddordeb fynychu'r ymchwiliad yn bersonol neu anfon cynrychiolydd i leisio eu sylwadau.

19. Mae'r Comisiwn am sicrhau bod gan bawb y cyfle i fynegi eu sylwadau yn llawn ac felly maent am bwysleisio'n gryf iawn y dylai pobl, er eu lles eu hunain, fynychu unrhyw ymchwiliad lleol a gynhelir yn eu hardal, neu anfon cynrychiolydd yno, ar ôl iddynt wneud eu sylwadau o fewn y cyfnod statudol o un mis er mwyn egluro eu barn ar gynigion y Comisiwn. Mae mynychu ymchwiliad o'r fath hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt wrando ar unrhyw wrth-gynigion a gyflwynir gerbron y Comisiynydd Cynorthwyol, a gwneud sylwadau arnynt, gan ei gynorthwyo ef a'r Comisiwn i bwyso a mesur yn gywirach y farn leol ar y cynigion amrywiol.

20. Mae'r Comisiwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r ymchwiliad lleol drwy gyhoeddi hysbysiad mewn papurau newyddion lleol sy'n nodi amser, dyddiad a lleoliad yr ymchwiliad ac enw'r Comisiynydd Cynorthwyol. Yn ogystal, rhoddir datganiad newyddion yn cyhoeddi'r ymchwiliad i adrannau newyddion y cyfryngau ac eraill tua chwe wythnos cyn yr ymchwiliad er mwyn i bartïon â diddordeb gael amser, pe dymunant, i wneud trefniadau i gael eu cynrychioli yn yr ymchwiliad.

21. Mae copi o'r hysbysiad, y datganiad newyddion a chopïau o'r sylwadau hefyd yn cael eu hadneuo yn swyddfeydd y cyngor a'r llyfrgelloedd cyhoeddus lle y cafodd yr argymhellion dros dro eu harddangos, er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o unrhyw wrth-gynigion neu sylwadau eraill. Rhoddir copi o'r hysbysiad a'r datganiad newyddion ar safle'r Comisiwn ar y Rhyngrwyd hefyd – www.bcomm.gov.uk

22. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiad sy'n cynnwys y rhesymau dros eu hargymhellion a'r materion sy'n debygol o gael eu codi yn yr ymchwiliad. Pan fydd unrhyw sylwadau yn herio cyfreithlondeb argymhellion y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn darparu eglurhad o'r gofynion statudol. Caiff y datganiad ei adneuo yn swyddfeydd y cyngor a'r llyfrgelloedd cyhoeddus gyda'r hysbysiad, y datganiad newyddion a chopïau o'r sylwadau. Anfonir copi o'r datganiad at bawb sy'n cyflwyno sylwadau hefyd.

23. Bydd y Comisiynydd Cynorthwyol yn cyfeirio at y datganiad ar ddechrau'r ymchwiliad a bydd gan unrhyw un nad ydynt wedi darllen y datganiad eisoes gyfle i wneud hynny cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Ni chynrychiolir y Comisiwn yn ystod ymchwiliadau, er y bydd aelod o'r ysgrifenyddiaeth yn bresennol i weithredu fel arsylwr a chynorthwyo'r dull o weithredu'r ymchwiliad. Diben ymchwiliad lleol yw canfod barn y cyhoedd yn lleol. Felly, nid yw'r Comisiwn yn ceisio amddiffyn eu cynigion yn yr ymchwiliadau hyn ac maent yn ystyried y byddai gwneud hynny yn rhoi'r camargraff eu bod yn anfodlon newid eu hargymhellion <u>dros dro</u>, neu'n amharod i wneud hynny.

24. Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol: gadewir hyn i ddisgresiwn y Comisiynydd Cynorthwyol. Mae cofnodwyr gair-am-air yn mynychu'r ymchwiliad i gynhyrchu trawsgrifiad, yn Saesneg, o drafodion yr ymchwiliad. Mae cyfieithwyr ar y pryd yn mynychu ymchwiliadau i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae'r Comisiwn hefyd wedi penderfynu y caiff y trafodion eu recordio i sicrhau y gwneir trawsgrifiadau cywir. Mae ymchwiliadau yn ddigwyddiadau anffurfiol a gellir darllen datganiadau neu wneud cyflwyniadau llafar heb unrhyw ffurfioldeb ymlaen llaw, fel tyngu llw neu gadarnhau. Diben ymchwiliad yw:

(a) canfod gwybodaeth a barn leol berthnasol;

(b) gwrando ar feirniadaeth o argymhellion dros dro y Comisiwn, neu'r gefnogaeth ar eu cyfer;

(c) gwrando ar feirniadaeth o unrhyw wrth-gynigion a wnaed yn ystod y cyfnod cyflwyno, neu'r gefnogaeth ar eu cyfer; a

(d) galluogi pawb sy'n mynychu sydd am wneud sylwadau ar unrhyw un o'r materion hyn i wneud hynny.

25. Ar ôl i'r Comisiynydd Cynorthwyol agor yr ymchwiliad a chyfeirio at ddatganiad y Comisiwn, bydd y Comisiynydd Cynorthwyol fel arfer yn gofyn am enw (a noddwr – os bydd y person hwnnw yn cynrychioli person arall neu sefydliad) pawb sy'n dymuno siarad, yn gwneud nodyn o hyn ac yn cytuno ar drefn siarad sy'n gyfleus i bawb. Os bydd digon o alw, gallai'r Comisiynydd Cynorthwyol gynnal sesiwn gyda'r nos yn ystod yr ymchwiliad, er nad yw hyn yn digwydd yn aml iawn.

26. Er mwyn i ymchwiliad fynd rhagddo'n ddidrafferth, mae'n hanfodol bod unrhyw un sydd am gynnig gwrth-gynnig arwyddocaol neu fanwl, neu sydd am ymhelaethu arno, yn datgelu'r ffaith hon <u>ar ddechrau'r ymchwiliad</u> wrth roi eu henwau. Mae hefyd yn hanfodol eu bod yn darparu copïau o unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig neu fapiau a ddefnyddir ganddynt, i'r Comisiynydd Cynorthwyol a'r cofnodwyr gair-am-air, ac eraill sy'n mynychu'r ymchwiliad er mwyn rhoi'r cyfle iddynt astudio'r gwrth-gynigion a gwneud sylwadau arnynt. Gall y Comisiynydd Cynorthwyol ohirio'r ymchwiliad am gyfnod byr os bydd o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn caniatáu amser i ystyried gwrth-gynigion cymhleth. Fodd bynnag, gobeithir na fydd angen gwneud hyn yn aml.

27. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, nid yw unrhyw wrth-gynigion a gyflwynir am y tro cyntaf yn yr ymchwiliad lleol, <u>ac sydd felly heb gael eu harddangos yn gyhoeddus gyda'r sylwadau eraill cyn yr ymchwiliad,</u> yn debygol o fod yn ddylanwadol. Yn bennaf, bydd hyn am na fydd y Comisiynydd Cynorthwyol wedi gallu pwyso a mesur lefel lawn y gefnogaeth ar gyfer y gwrth-gynigion, neu'r gwrthwynebiad iddynt. Yn gyffredinol, dim ond os bydd gan bartïon â diddordeb gyfle i'w hastudio cyn yr ymchwiliad y daw hyn i'r amlwg. Hwyrach y byddai llawer mwy o bobl wedi mynychu'r ymchwiliad pe byddent yn ymwybodol o'r gwrth-gynigion. Yn syml, ni fyddai gwrth-gynigion o'r fath wedi cael yr un archwiliad cyhoeddus â'r rhai a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod cyflwyno statudol o un mis. Nid yw Comisiynydd Cynorthwyol yn debygol iawn o ohirio ymchwiliad am fwy na chyfnod byr, er mwyn caniatáu mwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer set newydd o gynigion pan fydd y person sy'n cyflwyno'r rhain wedi methu â chydymffurfio â'r amserlen ar gyfer cyflwyno sylwadau.

28. Os yn bosibl, gofynnir i bobl eraill sydd am wneud cyflwyniadau neu ddarllen datganiadau ysgrifenedig ddarparu copïau o'u cyflwyniad neu eu datganiad er cyfleustra'r Comisiynydd Cynorthwyol, y cofnodwyr gair-am-air a phobl eraill sy'n mynychu'r ymchwiliad.

29. Ar ôl i'r Comisiynydd Cynorthwyol wrando ar bob siaradwr, bydd fel arfer yn gwahodd y gynulleidfa i ofyn cwestiynau drwyddo i'r siaradwr hwnnw, a hwyrach y bydd ganddo ei gwestiynau ei hun. Fodd bynnag, y Comisiynydd Cynorthwyol sydd â'r disgresiwn i ganiatáu cwestiynau.

30. Pan fydd yr ymchwiliad wedi dod i ben, ac ar ôl i'r Comisiynydd Cynorthwyol gael trawsgrifiad gair-am-air o'r trafodion, bydd yn ysgrifennu adroddiad ac yn ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r Comisiwn. Yn yr adroddiad hwnnw, mae ganddo berffaith hawl i fynegi ei farn am unrhyw sylwadau neu gyflwyniadau, neu gynigion y Comisiwn, neu ar unrhyw gynigion eraill. Gallai argymell y dylid derbyn cynigion y Comisiwn fel ag y maent neu gyda newidiadau. Neu gallai argymell y dylid mabwysiadu gwrth-gynigion, gyda diwygiadau neu hebddynt, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau ac yn ymddangos, yn ei farn ef, fel eu bod yn hawlio mwy o gefnogaeth yn lleol na chynigion y Comisiwn.

**Argymhellion diwygiedig ac argymhellion wedi'u haddasu**

31. Mae'r Comisiwn yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig, adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, y materion a drafodwyd yn yr ymchwiliad lleol (y trawsgrifiad gair-am-air), ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Os penderfynant ddiwygio eu hargymhellion dros dro, cyhoeddir yr argymhellion diwygiedig, rhoddir datganiad newyddion i bob person â diddordeb, gwahoddir sylwadau o fewn un mis a dilynir yr un gweithdrefnau a ddisgrifiwyd o dan "Cyhoeddi" uchod.

32. Pan gaiff yr argymhellion dros dro eu diwygio yn dilyn ymchwiliad lleol, bydd adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol ynghyd ag eglurhad o benderfyniad y Comisiwn ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus gyda'r dogfennau eraill (h.y. datganiad newyddion, mapiau ac ati) yn swyddfeydd y cyngor, llyfrgelloedd cyhoeddus, ac ati lle'r adneuwyd yr argymhellion dros dro a manylion yr ymchwiliad.

33. Mae'r Comisiwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed am yr argymhellion diwygiedig. Fodd bynnag, os derbynnir gwrthwynebiadau, nid oes rhaid i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol pellach i'r etholaethau dan sylw, ond gallant wneud hynny yn ôl eu disgresiwn. Mae'r Comisiwn am osgoi'r gost o gynnal ail ymchwiliadau. Gobeithir hefyd y bydd yr ymchwiliadau cyntaf yn llawn ac yn gyflawn ac felly dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd yn angenrheidiol cynnal ail ymchwiliad i gael mwy o wybodaeth neu ganfod barn leol ar bwyntiau newydd a dilys a allai gynnig datrysiad o bosibl, ac na fynegwyd yn flaenorol.

34. Os cynhelir ail ymchwiliad lleol, ailadroddir y gweithdrefnau a grybwyllwyd o dan "Ymchwiliad Lleol". Os addesir yr argymhellion diwygiedig o ganlyniad i sylwadau neu'r adroddiad ar ail ymchwiliad, cyhoeddir yr argymhellion wedi'u haddasu ac ailadroddir y broses "Cyhoeddi" eto.

**Argymhellion terfynol a'r adroddiad**

35. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar eu hargymhellion terfynol ar gyfer yr holl wlad, maent yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Dirprwy Brif Weinidog. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau gwahanol ym mhob sir a gedwir, gallai'r argymhellion terfynol fod yn argymhellion dros dro, argymhellion diwygiedig neu argymhellion wedi'u haddasu ar gyfer y sir a gedwir honno.

36. Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r arolwg fesul pob ardal y cynhelir arolwg ohoni (h.y. pob sir a gedwir), yr holl argymhellion terfynol, a set o fapiau i ddangos y ffiniau presennol a'r rhai a arfaethir gan yr argymhellion terfynol.

37. Hysbysir yr holl bartïon â diddordeb o argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer eu hardal briodol gydag eglurhad o resymau'r Comisiwn dros yr argymhellion ac fe'u hysbysir yr anfonir adroddiad at y Dirprwy Brif Weinidog maes o law. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu peidio â diwygio'r argymhellion dros dro ar ôl ymchwiliad cyntaf, neu beidio ag addasu'r argymhellion diwygiedig ar ôl yr ail ymchwiliad, anfonir copi am ddim o adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol ar yr ymchwiliad cyntaf neu'r ail ymchwiliad, fel y bo'n briodol, at y partïon â diddordeb yn yr ardal honno ynghyd â hysbysiad o'r argymhellion terfynol ac eglurhad o resymau'r Comisiwn.

**Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor**

Caiff y tri pharagraff canlynol eu haralleirio o adrannau 3(5) a 4(2)-(7) Deddf 1986.

38. Mae'n ofynnol i'r Dirprwy Brif Weinidog gyflwyno'r adroddiad gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno'r adroddiad iddo. Os bydd yr adroddiad yn argymell newidiadau i'r etholaethau presennol, bydd hefyd yn rhaid i'r Dirprwy Brif Weinidog roi Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor sy'n gweithredu'r argymhellion, gydag addasiadau neu hebddynt.

39. Os cynigir addasiadau, mae'n ofynnol i'r Dirprwy Brif Weinidog roi datganiad o'r rhesymau drostynt ar yr un pryd. Mae'n rhaid trafod a chymeradwyo (neu wrthod) y Gorchymyn drafft gan y ddau Senedd-dy. Os na chymeradwyir y Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor, gall y Dirprwy Brif Weinidog ddiwygio'r drafft a chyflwyno'r drafft diwygiedig gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.

40. Unwaith y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi'i gymeradwyo gan y Senedd, mae'n ofynnol i'r Dirprwy Brif Weinidog ei gyflwyno i'w wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, daw'r etholaethau newydd i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae'n rhaid i unrhyw is-etholiadau a gynhelir yn y cyfamser gael eu cynnal yn yr hen etholaethau (y rhai presennol). Unwaith i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, ni ellir amau ei ddilysrwydd o fewn unrhyw gamau cyfreithiol.

41. Gwnaed diwygiadau i adrannau 3 a 4 o Ddeddf 1986 gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a fydd yn dileu hawl y Dirprwy Brif Weinidog i wneud addasiadau i gynigion y Comisiwn. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau hynny mewn grym eto, ac nid ydynt yn debygol o ddod i rym hyd nes i'r Comisiynau Ffiniau gwblhau'r arolwg nesaf o etholaethau Seneddol.

PENNOD 6

# MATERION WRTH GYNNAL AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL

**Cyfranogiad**

1. Un o'r prif broblemau ac un o'r rhai mwyaf parhaus a wynebir gan y Comisiwn yn ystod eu harolygon yw pa mor anodd yw cael nifer resymol o gyrff â diddordeb ac etholwyr yn gyffredinol i gymryd rhan yn y ddadl gyhoeddus ar gynigion y Comisiwn, er gwaethaf y gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion a ddisgrifir ym mhennod pump.

2. Problem arbennig yw ysgogi ymateb o'r fath ar yr adeg gywir. Pan fydd y Comisiwn yn cyhoeddi eu hargymhellion dros dro ac yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig i gael eu gwneud o fewn y cyfnod statudol diffiniedig o un mis, mae'r rhai sy'n gwrthwynebu'r argymhellion, neu nad ydynt yn cytuno'n llwyr â hwy, yn naturiol yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y Comisiwn yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u barn. Cânt eu hysbysu'n uniongyrchol o unrhyw ymchwiliad lleol a gynhelir ac maent fwyaf tebygol o fynychu unrhyw ymchwiliad lleol a gynhelir i mewn i'r argymhellion hynny.

3. Nid yw'r rhai sy'n cefnogi, neu nad ydynt yn gwrthwynebu, argymhellion dros dro y Comisiwn yn rhoi gwybod i'r Comisiwn yn ddigon aml eu bod yn eu cefnogi neu nad ydynt yn eu gwrthwynebu. Felly, ni all y Comisiwn eu hysbysu'n uniongyrchol eu bod yn cynnal ymchwiliad lleol a byddai'n ymddangos bod y bobl hynny'n llai tebygol o fynychu ymchwiliadau lleol. Mae'r sefyllfa'n ei gwneud yn anos i'r Comisiynydd Cynorthwyol (a'r Comisiwn felly) i bwyso a mesur y wybodaeth a'r farn leol yn iawn. O ganlyniad i sylwadau ysgrifenedig a chyflwyniadau a wnaed yn ystod ymchwiliad lleol, gallai'r Comisiwn ddiwygio eu hargymhellion dros dro.

4. Fel yr eglurir ym mhennod pump, nid oes rhaid i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol drwy sylwadau a dderbyniwyd am argymhellion diwygiedig, ac mae ail ymchwiliadau yn brin. At hynny, ni fyddai pobl neu sefydliadau na wnaeth sylwadau ac na fynychodd ymchwiliad yn cael eu hysbysu yn uniongyrchol o argymhellion diwygiedig a hwyrach na fyddant yn cael gwybod am y newidiadau hyd nes i'r argymhellion gael eu gwneud yn derfynol.

5. Yn ystod y pedwerydd arolwg cyffredinol, yn dilyn ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol a'r sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r argymhellion dros dro, cyhoeddodd y Comisiwn argymhellion diwygiedig ar gyfer pedair o'r wyth sir. Mae hyn yn dynodi parodrwydd y Comisiwn i ddiwygio eu hargymhellion dros dro a gwerth y cyfranogiad hwnnw yn yr arolwg ar yr adeg briodol.

6. Felly, mae'r Comisiwn am bwysleisio'n gryf iawn y dylai unrhyw berson neu sefydliad sydd â diddordeb yn yr argymhellion dros dro ar gyfer eu hardal (yn enwedig

awdurdodau lleol a phleidiau gwleidyddol) bob amser arfer eu hawl statudol a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn, pa un a ydynt o blaid neu yn erbyn yr argymhellion dros dro. Drwy wneud hyn, gallant sicrhau eu bod yn derbyn hysbysiad o unrhyw wrth-gynigion. Yn ogystal, fe'u hanogir i fynychu unrhyw ymchwiliad lleol a gynhelir yn eu hardal, neu anfon cynrychiolydd yno, a mynegi eu barn ar yr argymhellion dros dro. Yn arbennig, dylai unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gwneud gwrth-gynnig fynychu'r ymchwiliad lleol i'w egluro a rhoi cyfle i eraill ofyn cwestiynau amdano.

7. Drwy fynychu'r ymchwiliad, byddent hefyd yn cael cyfle i wrando ar fanylion unrhyw wrth-gynigion eraill a gyflwynir gerbron y Comisiynydd Cynorthwyol, a gwneud sylwadau arnynt, gan ei gynorthwyo ef a'r Comisiwn i bwyso a mesur y farn leol ar y cynigion amrywiol yn gywirach. Drwy wneud hyn, gobeithir y bydd yr argymhellion terfynol a wneir gan y Comisiwn yn dderbyniol yn gyffredinol i'r mwyafrif o bobl a fydd yn gorfod byw a gweithio gyda hwy.

**Cysondeb**

8. Weithiau cyfyd cwynion nad yw'r Comisiwn wedi gweithredu'n gyson wrth wneud eu cynigion ar gyfer ardaloedd gwahanol ac yn amlwg ceir rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch rôl y Comisiwn. Eu rôl, o safle didueddrwydd, yw cyflwyno, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, un cynllun ar gyfer ailddosbarthu etholaethau er mwyn gweithredu'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi; ystyried yr hyn a ddywedir yn y ddadl gyhoeddus ar y cynigion; gwneud newidiadau i'r cynigion, os bydd angen; ac, ar ôl ymgynghori pellach, cyflwyno argymhellion i'r Dirprwy Brif Weinidog.

9. Fel y dywedodd yr Uchel Lys (R v Boundary Commission for England ex parte Foot 1983 1 Q.B.600):

"Mae'n bwysig sylweddoli na ddywedodd y Senedd wrth y Comisiwn Ffiniau i arfer cyfrifeg – cyfrif pennau, rhannu gyda rhif ac yna tynnu cyfres o linellau o amgylch pob grŵp canlyniadol. Dywedodd wrtho i gynnal ymgymeriad mwy pellgyrhaeddol a soffistigedig, sy'n cynnwys cael cydbwysedd rhwng llawer o ffactorau a all bwyntio mewn cyfeiriadau gwahanol. Mae hyn yn gofyn am farn, nid cywirdeb gwyddonol. Serch hynny, gallai cydymffurfiad caeth â chyfarwyddiadau'r Senedd arwain at sawl ateb gwahanol. Yn wir, y ffaith mae'n siwr yw y gellir canfod llawer o atebion gwahanol i'r broblem o ble y dylid tynnu ffiniau etholaethau, ac y byddai pob un o'r rhain yn synhwyrol, ac oherwydd hyn mae'r Senedd wedi ceisio cyngor gan y comisiwn. Nid yw hyn yn golygu ei bod yn amhosibl i'r comisiwn roi ateb anghywir, yn yr ystyr ei fod yn un na fyddai'n bosibl ei roi yng ngoleuni cyfarwyddiadau'r Senedd, a ddeallir yn gywir. Ond mae'n golygu nad yw'r ffaith bod yna ateb amgen, y gellir ei gyflwyno hefyd i fod yn gyson â'r cyfarwyddiadau hynny, yn dweud dim wrthym. Gan fod mwy nag un ateb, mae'r Senedd wedi gofyn i'r comisiwn gynghori pa un, yn eu barn hwy, y dylid ei fabwysiadu."

10. Ar wahân i'r ffaith nad oes unrhyw ddwy ardal yn union yr un fath, mae'r rheolau yn gydberthnasol mewn ffordd gymhleth ac yn caniatáu i'r Comisiwn arfer disgresiwn wrth eu cymhwyso. Er enghraifft, mae rheol 4 yn nodi y dylai ffiniau etholaethau ddilyn ffiniau sir a gedwir, cyhyd ag y bo'n ymarferol gan ystyried rheolau 1 i 3. Mae rheol 5 yn nodi y dylai nifer etholwyr mewn etholaeth fod cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n

ymarferol gan ystyried rheolau 1 i 4, ond gall y Comisiwn wyro oddi wrth reol 4 i osgoi anghysondebau eithafol yn niferoedd yr etholwyr. Mae Rheol 6 yn caniatáu i'r Comisiwn wyro oddi wrth reolau 4 a 5 am resymau daearyddol. Mae cymal cyntaf rheol 7 yn rhoi'r hawl i'r Comisiwn wyro oddi wrth reolau 1 i 6. Ac mae ail gymal rheol 7 yn mynnu bod yn Comisiwn yn ystyried anghyfleustra a achosir gan newidiadau i etholaethau (ac eithrio newidiadau a wnaed i gydymffurfio â rheol 4) a rhwymau lleol a fyddai'n cael eu chwalu gan y newidiadau (gweler Atodiad D).

11. Fel arfer, nid oes un ffordd berffaith o ddosbarthu etholaethau o fewn unrhyw sir a gedwir er mwyn gweithredu'r rheolau, ac mae bron yn amhosibl gwneud argymhellion sy'n bodloni cymeradwyaeth lawn pob parti neu blaid.

12. Yn y bôn, mae'n ofynnol i'r Comisiwn argymell etholaethau yn dilyn ffiniau siroedd a gedwir a sicrhau niferoedd etholwyr yn agos i'r cwota etholiadol, ond gyda disgresiwn i argymell fel arall er mwyn dod o hyd i ddosbarthiad derbyniol. Yn ymarferol, gallai'r Comisiwn deimlo ei fod yn gallu caniatáu i ofyniad rheol 5 gael ei weithredu mewn un ardal, sef bod niferoedd yr etholwyr cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol, ond mewn ardal arall, gallai ffactorau eraill fel gofyniad rheol 4, sef parchu ffiniau sir a gedwir neu fodolaeth rhwymau lleol cryf, rwystro hyn. Gellir dod o hyd i gyfaddawd yn rhywle arall. Mae'r penderfyniadau gwrthrychol hyn yn anodd, ond mae'r Comisiwn yn dod i'w casgliadau annibynnol a diduedd ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt.

PENNOD 7

# AROLWG O ARDALOEDD CYNULLIAD CYMRU

**Deddf Llywodraeth Cymru 1998**

1. Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac mae Atodlen 1 (Etholaethau'r Cynulliad a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad) yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnal arolygon o ranbarthau'r Cynulliad ar yr un adeg ag arolygon cyffredinol o etholaethau seneddol.

2. Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf yn nodi mai etholaethau'r Cynulliad fydd yr etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae hefyd yn mynnu bod pum rhanbarth etholiadol gan y Cynulliad, ac i gychwyn, y rhain bydd y pum etholaeth Senedd Ewrop yng Nghymru y darperir ar eu cyfer gan Orchymyn Etholaethau Senedd Ewrop (Cymru) 1994. Mae'r Atodlen hefyd yn mynnu bod pedair sedd gan y Cynulliad ar gyfer pob rhanbarth etholiadol y Cynulliad.

3. Fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o'r llyfryn hwn, mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi sy'n ffurfio Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 wrth gynnal arolwg o etholaethau seneddol a gwneud eu hargymhellion. Mewn gwirionedd, mae Deddf 1986 wedi'i hymestyn gan Atodlen 1 i Ddeddf 1998 sy'n mynnu bod y Comisiwn, pan fyddant yn argymell newidiadau yn unol â Deddf 1986 sy'n effeithio ar unrhyw etholaethau seneddol, hefyd yn ystyried pa un a fydd angen unrhyw newidiadau i:

   (a) rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu

   (b) dyraniad y seddi i ranbarthau etholiadol y Cynulliad,

   er mwyn gweithredu'r rheolau a nodir ym mharagraff 8 Atodlen 1 i Ddeddf 1998.

**Y Rheolau**

4. Nodir y rheolau ym mharagraff 8 Atodlen 1 i Deddf 1998 ac fe'u hailgynhyrchir yn Atodiad E i'r llyfryn hwn. Yn fras, mae nodweddion y rheolau hyn fel a ganlyn:

   (a) bydd pob un o etholaethau'r Cynulliad yn cael ei chynnwys yn gyfan gwbl yn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad;

   (b) bydd yr etholaethau rhanbarthol cyn agosed i'w gilydd ag y bo'n ymarferol resymol, gan gadw ystyriaethau daearyddol arbennig mewn cof;

   (c) bydd cyfanswm seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad un a hanner gwaith cyfanswm etholaethau'r Cynulliad (mae'r rheolau yn darparu arweiniad lle nad yw'n bosibl rhannu cyfanswm etholaethau'r Cynulliad gyda dau); a

(d) bydd nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad yn un ran o bump o gyfanswm seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad (mae'r rheolau yn darparu arweiniad lle nad yw'n bosibl rhannu cyfanswm etholaethau'r Cynulliad gyda phump).

5. Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau ac 20 o seddi gan y Cynulliad, pedair yr un i bum rhanbarth y Cynulliad.

**Gweithdrefnau**

6. Unwaith i'r Comisiwn benderfynu ar eu hargymhellion dros dro ar gyfer etholaethau seneddol, ynghyd â'r effeithiau canlyniadol ar ranbarthau'r Cynulliad, gwneir trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynigion a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt er mwyn caniatáu i ddadl gyhoeddus gael ei chynnal.

7. Rhoddir y gweithdrefnau ar gyfer cynnal arolwg o etholaethau seneddol ym Mhennod 5 o'r llyfryn hwn. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol mewn perthynas â rhanbarthau'r Cynulliad, heblaw:

(a) nid yw'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi mewn papurau newydd lleol effeithiau eu cynigion (dros dro neu ddiwygiedig) ar gyfer rhanbarthau'r Cynulliad os bydd y cynigion hynny *dim ond* am newid yn nifer seddi'r Cynulliad lle y gellir rhannu cyfanswm arfaethedig (neu ddiwygiedig) nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer y rhanbarthau etholiadol yn union gyda phump; a

(b) dim ond os byddant yn derbyn sylwadau yn gwrthwynebu eu cynigion gan awdurdod lleol â diddordeb neu gorff o 500 neu fwy o etholwyr y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad lleol mewn perthynas â rhanbarthau'r Cynulliad. Mae "awdurdod lleol â diddordeb" yn golygu cyngor sir neu fwrdeistref sirol y cynhwysir ei ardal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhanbarthau etholiadol y Cynulliad yr effeithir arnynt.

8. Pan fydd y Comisiwn yn cyflwyno adroddiad o dan Ddeddf 1986 i'r Dirprwy Brif Weinidog yn argymell newidiadau i etholaethau seneddol, bydd yr adroddiad yn dangos unrhyw newid i:

(a) rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu

(b) dyraniad y seddi i ranbarthau etholiadol y Cynulliad

a argymhellir gan y Comisiwn er mwyn gweithredu'r rheolau.

9. Os, ym marn y Comisiwn, na fydd angen unrhyw newid at y diben hwnnw, byddant yn nodi hynny yn yr adroddiad.

10. Os bydd yr adroddiad yn argymell unrhyw newid i unrhyw un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad, bydd yn nodi'r enw (yn Gymraeg a Saesneg) y mae'r Comisiwn yn

argymell y dylid ei ddefnyddio ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad (fel y bwriedir eu newid).

**Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor**

11. Mae Deddf 1998 yn nodi y gallai Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Ddeddf 1986 (gweler Pennod 5 o'r llyfryn hwn) ar gyfer gweithredu'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Comisiwn, gyda neu heb newidiadau, nodi dyddiadau gwahanol ar gyfer pryd y daw i rym:

(a) at ddibenion etholiadau i Dŷ'r Cyffredin, ac

(b) at ddibenion dychwelyd aelodau'r Cynulliad.

PENNOD 8

# CASGLIAD

**Diwygio'r llyfryn**

1. Gobeithir y bydd y wybodaeth, yr esboniadau a'r enghreifftiau a roddir yn y llyfryn hwn yn bodloni'r amcanion a nodwyd ar ei gyfer ym mhennod un gan helpu'r Comisiwn i gyflawni ei waith felly. Os bydd gan unrhyw un unrhyw awgrymiadau defnyddiol o ran sut y gellid gwella'r llyfryn, pa un a yw hyn drwy gywiro, egluro, ychwanegu, dileu neu mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y cyfeiriad a roddir isod. Byddai'r Comisiwn yn falch o ystyried unrhyw awgrymiadau ar gyfer diwygio'r llyfryn.

**Ymholiadau**

2. Gellir gwneud unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y llyfryn hwn, y Cynllun Iaith Gymraeg neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru, drwy ysgrifennu at:

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031

Ffacs: 029 2039 5250

E-bost: comffin.wales@wales.gsi.gov.uk

Cyfeiriad y Rhyngrwyd: www.comffin-cymru.gov.uk

3. Rhoddir cyfeiriadau a rhifau ffôn y Comisiynau Ffiniau Seneddol eraill a'r Comisiynau Ffiniau Llywodraeth Leol yn Atodiad B.

ATODIAD A

# CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986.

1. Aelod ex-officio

   Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau.

2. Tri aelod arall

   a) Mae'r dirprwy gadeirydd, sy'n llywyddu cyfarfodydd y Comisiwn, yn farnwr yr Uchel Lys a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor.

   b) Penodir un aelod gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

   c) Penodir un aelod gan y Dirprwy Brif Weinidog.

3. Dau aseswr

   a) Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr.

   b) Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.

4. Dau ysgrifennydd

   Penodir y ddau ysgrifennydd ar y cyd gan y Dirprwy Brif Weinidog.

5. Comisiynwyr Cynorthwyol

   Gallai'r Dirprwy Brif Weinidog, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol annibynnol i gynnal ymchwiliadau lleol. Mae Comisiynydd Cynorthwyol fel arfer yn gyfreithiwr annibynnol.

ATODIAD B

# CYFEIRIADAU A RHIFAU FFÔN Y COMISIYNAU ERAILL

Seneddol

**Y Comisiwn Ffiniau i Loegr**
Zone RG/11
1 Drummond Gate
London
SW1V 2QQ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (020) 7533 5177 |
| Ffacs: | (020) 7533 5176 |
| E-bost: | bcomm.england@ons.gov.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd: | www.statistics.gov.uk/pbc/default.asp |

**Y Comisiwn Ffiniau i'r Alban**
3 Drumsheugh Gardens
Edinburgh
EH3 7QJ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (0131) 538 7200 |
| Ffacs: | (0131) 538 7240 |
| E-bost: | secretariat@bcomm-scotland.gov.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd: | www.bcomm-scotland.gov.uk |

**Y Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon**
Enterprise House
55-59 Adelaide Street
BELFAST
BT2 8FE

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (028) 9072 6040 |
| Ffacs: | (028) 9072 6077 |
| E-bost: | bcni@belfast.org.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd: | nid oes cyfleuster yn bresennol |

Llywodraeth Leol

**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**
Tŷ Caradog (Llawr 1af)
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd, CF1 3BE

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (029) 2039 5031 |
| Ffacs: | (029) 2039 5250 |
| E-bost | cflll.cymru@wales.gsi.gov.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd | www.cfll-cymru.gov.uk |

**Comisiwn Etholiadol – Comisiwn Ffiniau i Loegr**
Trevelyan House
Great Peter Street
London, SW1P 2HW

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (020) 7271 0500 |
| Ffacs: | (020) 7271 0505 |
| E-bost: | reviews@lgce.gov.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd: | www.lgce.gov.uk |

**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i'r Alban**
3 Drumsheugh Gardens
Edinburgh, EH3 7QJ

| | |
|---|---|
| Ffôn: | (0131) 538 7510 |
| Ffacs: | (0131) 538 7511 |
| E-bost: | secretariat@lgbc-scotland.gov.uk |
| Cyfeiriad y Rhyngrwyd: | www.lgbc-scotland.gov.uk |

**Comisiynydd Ffiniau Llywodraeth Leol i Ogledd Iwerddon**

Nid yw'n weithredol ar hyn o bryd.

ATODIAD C

# RHESTR O ADRODDIADAU CYHOEDDEDIG A PHAPURAU ERAILL

Arolygon Cyffredinol o Etholaethau Seneddol

1. Adroddiad Cychwynnol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Tachwedd 1947. Cmd.7274. Daeth i rym adeg etholiad cyffredinol 1950.

2. Adroddiad Cyfnodol Cyntaf y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Tachwedd 1954. Cmd.9313. Daeth i rym adeg etholiad cyffredinol 1955.

3. Ail Adroddiad Cyfnodol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mehefin 1969. Cmd.4086. Daeth i rym adeg etholiad cyffredinol 1974.

4. Trydydd Adroddiad Cyfnodol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Chwefror 1983. Cmd.8798. Daeth i rym adeg etholiad cyffredinol 1983.

5. Pedwerydd Adroddiad Cyfnodol y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Chwefror 1995. Cmd.195. Daeth i rym adeg etholiad cyffredinol 1997.

Arolygon Interim o Etholaethau Seneddol

Yn ogystal, bu sawl adroddiad yn ymwneud ag arolygon interim o niferoedd bach o etholaethau a gynhelir rhwng y cyfnodau pan oedd arolygon cyffredinol o'r holl etholaethau yn cael eu cynnal. Gellir darparu manylion yr adroddiadau hyn ar gais. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon interim yng Nghymru rhwng y pedwerydd a'r pumed arolwg cyffredinol.

Papurau Eraill a Gyhoeddwyd

1. The Use of Computers in Redistributing Constituencies. G P Barnes, Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Astudiaethau Etholiadol (Awst 1987), Cyfrol 6: Rhif 2, Tudalennau 133-138 Butterworth & Co. (Cyhoeddwyr) Ltd.

2. Memorandwm a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ail Adroddiad Materion Cartref gan y Pwyllgor Materion Cartref, Sesiwn 1986-1987. Ailddosbarthu Seddi. (Tŷ'r Cyffredin 97-I). Llyfrfa EM.

3. The Criteria for Revising Constituency Boundaries. G P Barnes OBE, Ysgrifennydd Diweddar a R McLeod, Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Cyfnodolyn OPCS "Population Trends" Rhif 57. Awst 1989.

4. The Fourth Periodical Review in its context: How the Boundary Commissions for England and Wales approached their task. R McLeod, Ysgrifennydd i'r Comisiynau. Cynhadledd ar Bennu Ffiniau yn Senedd y DU, Coleg Nuffield, Rhydychen – Mehefin

1995. Cyhoeddwyd fel rhan o "Fixing the Boundaries: Defining and Redefining Single-Member Electoral Districts" gan I McLean a D Butler. Dartmouth Publishing Company.

ATODIAD D

# RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI

Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986

**Y Rheolau**

1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol fwy nac yn sylweddol lai na 613.

(2) Ni fydd nifer yr etholaethau yn yr Alban yn llai na 71. **DIDDYMWYD – gan Ddeddf yr Alban 1998.**

(3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.

(4) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Ngogledd Iwerddon yn fwy na 18 nac yn llai na 16, a bydd yn 17 oni fydd yn ymddangos i'r Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon y dylid rhannu Gogledd Iwerddon yn 16 neu'n 18 etholaeth (yn ôl y galw) am nawr.

2. Bydd pob etholaeth yn dychwelyd un aelod.

3. Bydd etholaeth sy'n cynnwys Dinas Llundain gyfan yn parhau i fodoli a bydd ei henw'n cyfeirio at Ddinas Llundain.

3A. Ni fydd etholaeth sy'n cynnwys yr Ynysoedd Erch neu Ynysoedd Shetland yn cynnwys ardal lywodraeth leol yn gyfan gwbl neu'n rhannol ac eithrio yr Ynysoedd Erch neu Ynysoedd Shetland.

4.- (1) Cyhyd ag y bo'n ymarferol gan ystyried rheolau 1 i 3 -

(a) yng Nghymru a Lloegr, -

(i) ni chynhwysir unrhyw sir na rhan o unrhyw sir mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw sir gyfan arall neu ran o unrhyw sir arall neu un o fwrdeistrefi cyfan Llundain neu ran o un o fwrdeistrefi Llundain,

(ii) ni chynhwysir unrhyw un o fwrdeistrefi Llundain nac unrhyw ran o un o fwrdeistrefi Llundain mewn etholaeth sy'n cynnwys unrhyw un o fwrdeistrefi cyfan eraill Llundain neu ran o unrhyw un o fwrdeistrefi eraill Llundain,

(b) yn yr Alban, dylid ystyried ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol,

(c) yng Ngogledd Iwerddon, ni ddylid cynnwys unrhyw ward yn rhannol mewn un etholaeth ac yn rhannol mewn etholaeth arall.

(1A) Yn is-baragraff (1)(a) uchod mae "sir" yn golygu, mewn perthynas â Chymru, sir a gedwir fel y'i diffiniwyd gan Adran 64 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

(2) Yn is-baragraff (1)(b) uchod mae "ardal" ac "awdurdod lleol" yn golygu'r un fath ag y maent yn Neddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1973.

5. Bydd nifer etholwyr unrhyw etholaeth cyn agosed i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol gan ystyried rheolau 1 i 4; a gallai Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheol 4 yn llym os ymddengys iddynt fod gwyro'n ddymunol er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng niferoedd etholwyr unrhyw etholaeth ac etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y maent yn ymwneud â hwy.

6. Gall Comisiwn Ffiniau wyro oddi wrth gymhwyso rheolau 4 a 5 yn llym os ymddengys iddynt fod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn arbennig maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn awgrymu y byddai gwyriad yn ddymunol.

Cyffredinol ac Atodol

7. Nid dyletswydd y Comisiwn Ffiniau fydd anelu at weithredu'r rheolau uchod yn llawn ym mhob achos, ond byddant yn ystyried y canlynol cyn belled ag y bo'n ymarferol-

(a) yr anghyfleustra wrth wneud newidiadau i etholaethau heblaw am newidiadau a wnaed at ddibenion rheol 4, ac

(b) unrhyw rwymau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.

8. Wrth gymhwyso rheol 5 i bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer -

(a) mae'r ymadrodd "cwota etholiadol" yn golygu nifer a geir drwy rannu nifer yr etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gyda nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad cyfrif,

(b) mae'r term "etholwyr" yn golygu -

(i) mewn perthynas ag etholaeth, nifer y bobl y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad cyfrif o dan y Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth,

(ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, gyfanswm yr etholwyr fel y'i diffiniwyd yn is-baragraff (i) uchod o'r holl etholaethau yn y rhan honno,

(c) mae'r ymadrodd "dyddiad cyfrif" yn golygu, mewn perthynas ag unrhyw adroddiad o Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad mewn perthynas â'r adroddiad hwnnw yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.

9. Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at reol wedi'i ddilyn gan rif yn cyfeirio at y rheol a nodir yn y paragraff priodol wedi'i rifo o'r Atodlen hon.

ATODIAD E

# Y RHEOLAU

Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

**Y Rheolau**

8.- (1) Mae'r rheolau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4 a 7(2) fel a ganlyn -

1. Cynhwysir pob un o etholaethau'r Cynulliad yn gyfan gwbl mewn un rhanbarth etholiadol y Cynulliad.

2. Bydd nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad cyn agosed i nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob un o ranbarthau etholiadol eraill y Cynulliad ag y bo'n ymarferol, gan gofio (lle y bo'n briodol) ystyriaethau daearyddol arbennig.

3. Cyfanswm nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -

   (a) hanner cyfanswm etholaethau'r Cynulliad, neu

   (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union gyda dau) hanner y nifer a gynhyrchir drwy ychwanegu un at y cyfanswm hwnnw.

4. Nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad fydd -

   (a) un ran o bump o gyfanswm seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, neu

   (b) (os na ellir rhannu'r cyfanswm hwnnw'n union gyda phump) naill un ran o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rannu'n union â phump neu'r rhif a gynhyrchir drwy ychwanegu un ran o bump at y rhif uchaf hwnnw (fel y darperir gan is-baragraffau (2) i (4)).

(2) Os na ellir rhannu cyfanswm seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad yn union gyda phump, bydd y Comisiwn yn cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng -

(a) cyfanswm nifer y seddi ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad, a

(b) y rhif uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rannu'n union gyda phump,

a dyna rif y seddi sy'n weddill i'w dyrannu gan y Comisiwn.

(3) Ni fydd y Comisiwn yn dyrannu mwy nag un sedd sy'n weddill i un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.

(4) Bydd y Comisiwn yn rhannu nifer yr etholwyr rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol gyda chyfanswm -

(a) nifer etholaethau'r Cynulliad yn rhanbarth etholiadol y Cynulliad, a

(b) un ran o bump o'r rhif uchaf sy'n llai na chyfanswm y seddi ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ac y gellir ei rannu'n union gyda phump

ac, wrth ddyrannu'r sedd neu'r seddi sy'n weddill i un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad, bydd yn ystyried pa mor ddymunol yw dyrannu'r sedd neu'r seddi sy'n weddill i ranbarth neu ranbarthau etholiadol y Cynulliad y mae'r cyfrifiad hwnnw yn cynhyrchu'r rhif neu'r rhifau uchaf ar eu cyfer.

ATODIAD F


# GEIRFA A THALFYRIADAU

| | |
|---|---|
| **Aseswr** | Ymgynghorydd technegol a benodwyd yn statudol i'r Comisiwn, sydd naill ai'n Gofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr neu'n Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. |
| **Comisiynydd Cynorthwyol** | Cyfreithiwr annibynnol a benodwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar gais y Comisiwn i gynnal ymchwiliad lleol. |
| **Etholaeth Bwrdeistref**<br>Talfyrrir i **BC** | Etholaeth seneddol sy'n cynnwys ardal sy'n drefol yn bennaf. |
| **Etholaeth Sir**<br>Talfyrrir i **CC** | Etholaeth seneddol sy'n cynnwys elfen wledig sylweddol. |
| **Dynodiad** | Dosbarthu naill ai fel etholaeth bwrdeistref neu fel etholaeth sir. |
| **Anghysondeb** | Gwahaniaeth rhwng etholwyr yr etholaethau mewn ardal benodol (fel arfer rhwng y niferoedd etholwyr mwyaf a lleiaf) neu rhwng nifer etholwyr a chwota etholiadol. |
| **Cwota etholiadol** | Nifer yr etholwyr mewn etholaeth ar gyfartaledd a ganfyddir drwy rannu cyfanswm yr etholwyr yng Nghymru gyda 40 (nifer bresennol yr etholaethau seneddol yng Nghymru). |
| **Etholwyr** | Nifer yr etholwyr seneddol cofrestredig mewn ardal benodol. |
| **Dyddiad cyfrif** | Y dyddiad y cyhoeddir hysbysiad y Comisiwn i'r Dirprwy Brif Weithredwr yn y London Gazette. Mae'n rhaid i gynigion gael eu seilio ar nifer yr etholwyr ar y cofrestri etholiadol ar y dyddiad hwn. |
| **Argymhellion terfynol** | Yr argymhellion a gyflwynir mewn adroddiad i'r Dirprwy Brif Weithredwr ar ddiwedd arolwg. Gallai'r rhain fod yn argymhellion dros dro, argymhellion diwygiedig neu argymhellion wedi'u haddasu mewn unrhyw ardal benodol. |
| **Arolwg cyffredinol** | Arolwg mawr o etholaethau seneddol yng Nghymru bob 8 i 12 mlynedd, a'r broses o'u hailddosbarthu. |
| **Arolwg interim** | Arolwg bach o nifer fach o etholaethau seneddol, fel arfer yn dilyn newidiadau i ffiniau llywodraeth leol. |
| **Ymchwiliad lleol** | Gwrandawiad cyhoeddus anffurfiol mewn ardal benodol a gynhelir gan Gomisiynydd Cynorthwyol. Mae angen un pan dderbynnir gwrthwynebiadau i argymhellion dros dro gan |

| | |
|---|---|
| | awdurdod lleol â diddordeb neu gorff o gant neu fwy o etholwyr. |
| **Argymhellion wedi'u haddasu** | Yr argymhellion diwygiedig fel y'u haddaswyd. |
| **Adroddiad cyfnodol** | Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol bob 8 i 12 mlynedd. |
| **Argymhellion dros dro** | Cynigion cychwynnol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. |
| **Ailddosbarthu seddi** | Ail-rannu ardal benodol yn etholaethau seneddol newydd. |
| **Sylwadau** | Llythyr yn rhoi sylwadau ar yr argymhellion dros dro, yr argymhellion diwygiedig a'r argymhellion wedi'u haddasu, sydd naill ai o'u plaid neu'n eu herbyn. |
| **Argymhellion diwygiedig** | Caiff yr argymhellion dros dro eu diwygio. |
| **Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi** | Meini prawf statudol ar gyfer etholaethau seneddol o dan Atodlen 2 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986. |
| **Ystyriaethau daearyddol arbennig** | Caniatâd i wyro oddi wrth gymhwyso meini prawf eraill ar gyfer etholaethau seneddol yn llym, gan gynnwys maint, siâp a hygyrchedd. |
| **Hawl ddamcaniaethol** | Nifer yr etholaethau seneddol y mae gan ardal benodol hawl ddamcaniaethol iddynt, a ganfyddir drwy rannu nifer etholwyr seneddol yr ardal gyda'r cwota etholiadol. Defnyddir gan y Comisiwn fel dangosydd o nifer yr etholaethau sydd i'w dyrannu. |
| **Awdurdod unedol** | Ffurf ar lywodraeth leol sy'n cynnwys un haen yn wahanol i'r strwythur Sir/Dosbarth blaenorol. Mae 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru. |

ATODIAD G

**MAP YN DANGOS YR ETHOLAETHAU SENEDDOL PRESENNOL**
**a SIROEDD CADWEDIG***




Atgynhyrch o fapiau wrth raddfa yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron Comiswn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, GD272221

* yn dilyn Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| **1 Ynys Môn** | **21 Neath** |
| **2 Conwy** | **22 Aberavon** |
| **3 Caernarfon** | **23 Bridgend** |
| **4 Meirionydd Nant Conwy** | **24 Ogmore** |
| **5 Clwyd West** | **25 Rhondda** |
| **6 Vale of Clwyd** | **26 Cynon Valley** |
| **7 Delyn** | **27 Merthyr Tydfil and Rhymney** |
| **8 Alyn and Deeside** | **28 Pontypridd** |
| **9 Wrexham** | **29 Caerphilly** |
| **10 Clwyd South** | **30 Vale of Glamorgan** |
| **11 Montgomeryshire** | **31 Cardiff West** |
| **12 Ceredigion** | **32 Cardiff North** |
| **13 Brecon and Radnorshire** | **33 Cardiff Central** |
| **14 Preseli Pembrokeshire** | **34 Cardiff South and Penarth** |
| **15 Carmarthen West and South Pembrokeshire** | **35 Blaenau Gwent** |
| **16 Carmarthen East and Dinefwr** | **36 Islwyn** |
| **17 Llanelli** | **37 Torfaen** |
| **18 Gower** | **38 Newport West** |
| **19 Swansea West** | **39 Newport East** |
| **20 Swansea East** | **40 Monmouth** |

## MYNEGAI


Addasiadau ……………21, 22, 28
Adroddiad ……………1, 3-8, 10, 15, 16, 18-23, 27, 28, 34, 37, 38, 41, 42
Adroddiad cyfnodol ……………6, 7, 10, 34, 42
Aelod Seneddol ……………4
Aelodau ……………3, 5, 16, 28, 30
Ailddosbarthu ……………1, 3-6, 8, 10, 13, 14, 16, 24, 26, 34, 36, 41, 42
Anghysondeb ……………36, 40
Annibyniaeth ……………12, 24
Archwiliad ……………21
Argymhellion diwygiedig ……………21-23, 42
Argymhellion dros dro ……………12, 13, 16-24, 27, 42
Argymhellion terfynol ……………1, 22, 24, 40
Argymhellion wedi'u haddasu ……………21, 41, 42
Arolwg cyffredinol ……………1-6, 8-13, 16, 23, 26, 33, 40, 41
Arolwg interim ……………6, 10, 16, 33, 40
Aseswr ……………4, 14, 30, 40
Awdurdodau unedol ……………5, 6, 11, 14, 17, 42
Cadeirydd ……………3-5, 30
Cofrestrydd Cyffredinol ……………3, 4, 30, 41
Comisiwn Etholiadol ……………9, 32
Comisiynydd Cynorthwyol ……………15, 18- 21, 23, 24, 36, 40
Cwota etholiadol ……………3, 6- 8, 10, 11, 13, 16, 17, 24, 25, 36, 40, 41
Cydraddoldeb etholiadol ……………6
Cyfartaledd ……………7, 11, 17, 40
Cyfarwyddwr Cyffredinol ……………3, 4, 14, 30, 40
Cyfieithwyr ar y pryd ……………15, 19
Cyfnod ……………4, 7, 18-23, 34
Cyfranogiad ……………23
Cyhoeddi ……………7, 16, 17, 21, 23
Cymuned ……………12
Cynlluniau ……………13
Darpariaethau statudol ……………10
Didueddrwydd ……………12, 24
Dirprwy Brif Weinidog ……………9, 15, 16, 19, 22, 25, 28, 31
Dirprwy Gadeirydd ……………4, 5, 30
Dosbarth ……………5, 12, 34, 41
Dyddiad cyfrif ……………7, 11, 13, 16, 36, 40
Dynodiad ……………11, 12, 17, 40
Enw ……………11, 12, 17, 19, 20, 28, 36, 37
Enwau ……………11
Etholaeth ……………1, 3, 6, 10-13, 16-18, 24, 26, 33, 35, 36, 38, 40
Etholaeth bwrdeistref ……………12, 40
Etholaeth seneddol ……………1, 6, 41
Etholaeth sir ……………12, 40
Etholaethau arfaethedig ……………12

Etholaethau newydd ……1, 4, 5, 22
Etholiadau ……2, 8, 9, 12, 22, 28
Etholwyr ……3, 4, 6, 10-14, 16, 17, 23-26, 36, 38-41
Geirfa ……40
Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ……7, 22, 28
Gweithdrefnau ……1, 6, 10, 12, 16, 18, 21, 23, 27
Gwrth-gynigion ……18-20, 24
Hanes ……3, 11
Hawl ddamcaniaethol ……17, 42
Llywodraeth leol ……2, 4-6, 9, 10, 29, 32, 35, 36, 40, 41
London Gazette ……7, 11, 16, 40
Maint ……1, 7, 11, 37, 42
Mapiau ……14, 15, 17, 20, 21
Meini prawf ……10, 33, 41
Nifer o etholaethau ……6, 7, 10, 11, 16, 17, 36, 37, 42
Plaid wleidyddol ……6, 12
Pleidleisio ……2
Problemau ……1, 6, 13, 23
Pwyllgor Dethol ……1, 7, 34
Rhanbarthau etholiadol ……6, 12, 17
Rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ……26-28, 38, 39
Rhannydd sefydlog ……7
Rheolau ……1, 3, 5-8, 10-13, 16, 17, 21, 24-27, 36, 37, 39, 42
Rhwymau lleol ……11, 12, 25, 36
Seddi ……1, 3-8, 10, 13, 16, 17, 24, 26, 27, 34, 36, 39, 40, 42
Siaradwr ……3, 15, 20, 30
Sir ……6, 10-13, 16-18, 21, 25, 27, 35, 36, 40, 41
Swyddfa Ystadegau Gwladol ……16
Swyddog Etholiad ……6, 12
Sylwadau ……7, 17-21, 23, 24, 27, 42
Talfyriadau ……40
Trawsgrifiad ……19, 21
Wardiau …… 12
Ymarfer ……12, 16, 25
Ymchwiliad lleol ……4, 10, 15, 18-21, 23, 24, 27, 40
Ymgynghoriad ……24, 41
Ymholiadau ……29
Yr iaith Gymraeg ……14, 15, 29
Ysgrifennydd Cartref ……3, 5, 40, 41
Ysgrifennydd Gwladol ……3
Ystyriaethau daearyddol arbennig ……11, 13, 26, 37, 39